Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

Cenhedlaethcoed
Adroddiad terfynol

Adolygiad o'r prosiect arbrofol coedwigaeth drefol ar gyfer Gogledd Ddwyrain Cymru

Gwanwyn 2009

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Gweithgaredd partneriaethol wedi ei ariannu ar y cyd gan y sefydliadau canlynol oedd Cenhedlaethcoed:

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

Adran Grantiau a Thrwyddedau
Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Swyddfa Ardal Gogledd Cymru
Clawdd Newydd
Rhuthun
LL15 2NL

Ffôn: 0845 6040845
Ffacs: 01824 750492

e-bost: fcwenquiries@forestry.gsi.gov.uk

Cynnwys

CRYNODEB	Tudalen
1. CYFLWYNIAD	8
Pwysigrwydd mannau gwyrdd trefol	8
Pam prosiect plannu coed trefol i Gymru?	8
2. NODAU'R CYNLLUN ARBROFOL CENHEDLAETHCOED	9
Nod Cenhedlaethcoed	9
Yr ystod nodau ar gyfer cynlluniau cymorth grant Cenhedlaethcoed	9
3. METHODOLEG: SUT Y CAFODD Y PROSIECT ARBROFOL CENHEDLAETHCOED EI SEFYDLU	11
Partneriaeth	
Swyddog Prosiect Cenhedlaethcoed	
Cymorth grant i gynlluniau lleol	
4. GWEITHREDU A CHYFLAWNI:	
SUT Y CYNHALIWYD Y PROSIECT ARBROFOL CENHEDLAETHCOED	12
Cyfnod Un	12
Cyfnod Dau	12
Cynyddu ymwybyddiaeth a rhwydweithio	12
Cyflawni	13
5. ALLBORTH A CHANLYNIADAU: YR HYN A GYFLAWNWYD	16
Allborth	16
Canlyniadau	16
Addasu'n well i newid hinsawdd	17
Gwell addysg a mwy o gyfleoedd dysgu	17
Gwell cydlyniad cymdeithasol a lles cymdeithasol	17
Mwy o adfywio corfforol yn yr amgylchedd trefol	17
Gwell mynediad i goed a choetiroedd	17
Creu mwy o gynefin brodorol	17
6. MYFYRIO AC ASESU: YR HYN A DDYSGWYD	18
Nodau	18
Partneriaeth rhwng y grŵp llywio / partneriaid ariannu	18
Diffyg cynllun prosiect	18
Swyddog Prosiect Cenhedlaethcoed	18
Trefniadau gweithio	18
Cymwyseddau	20
Cymorth grant a chyflawni cynlluniau	20
Cynyddu ymwybyddiaeth	20
Yr amrywiaeth cynlluniau a gyflawnwyd	21
Cymorth grant ac arian cyfatebol	21
Perthynas gyda'r rhai a dderbyniodd grantiau	21
Nodweddion ymarferol cyflwyno cymorth grant	21
Ymatebion mathau gwahanol o dderbynyddion grant, a'r modd y gwnaethant elwa	22
Cyflwyno cyngor a chymorth anariannol	22

Cynnwys

		Tudalen
Dilyn ymlaen o brosiect arbrofol Cenhedlaethcoed		22
Diffyg monitro a gwerthuson		22
Cynnal ymchwil ar gyfer yr adolygiad hwn		22
Cyswllt parhaus â chynlluniau cymorth grant		23
Lle Cenhedlaethcoed yng Nghomisiwn Coedwigaeth Cymru		23
Casgliadau cyffredinol am y prosiect arbrofol Cenhedlaethcoed		23
7. CENHEDLAETHCOED A CHYD-DESTUN POLISI LICC		24
8. ARGYMHELLION		26
9. DARLLEN YMHELLACH		27
TABL 1	Ystod Nodau Cenhedlaethcoed ar gyfer Cynlluniau Cymorth Grant	10
TABL 2	Crynodeb o Gost Cynlluniau Cymorth Grant yn y Prosiect Arbrofol Cenhedlaethcoed	14
TABL 3	Cyfanswm Adborth Prosiectau Arbrofol Cenhedlaethcoed	16
TABL 4	Canlyniadau Disgwyliedig Prosiect Arbrofol Cenhedlaethcoed	16
TABL 5	Ffit Cenhedlaethcoed gyda Choetiroedd i Gymru	25
FFIGUR 1	Nifer y Cynlluniau Cenhedlaethcoed a gafodd Gymorth Grant a'r Mathau o Safleoedd	14
FFIGUR 2	Nifer a Mathau o Sefydliadau a gafodd Gymorth Grant gan Brosiect Arbrofol Cenhedlaethcoed	14
ATODIAD 1	Cynlluniau Cenhedlaethcoed	28
ATODIAD 2	Cymwyseddau Hanfodol	35
ATODIAD 3	Trefniadau strwythurol mewnol Comisiwn Coedwigaeth Cymru	36
ATODIAD 4	Ffurflenni Cais Cenhedlaethcoed	38
ATODIAD 5	Cytundeb Cynnal a Chadw Cenhedlaethcoed	46
ATODIAD 6	Cytundeb Partneriaeth Cenhedlaethcoed	47

Crynodeb

Bu'r prosiect arbrofol Cenhedlaethcoed yn rhedeg o 2003 i 2008. Fe'i dechreuwyd gan Adran Grantiau a Thrwyddedau Comisiwn Coedwigaeth Cymru. Gogledd-ddwyrain Cymru oedd yr ardal dan sylw: Sir y Fflint a Wrecsam. Cafodd y prosiect ei lywio a'i gyd-ariannu gan bartneriaeth o sefydliadau â diddordeb.

Nod cyffredinol prosiect arbrofol Cenhedlaethcoed oedd canfod beth fyddai ei angen i blannu coed trefol yn llwyddiannus ar draws Cymru. Y prif nodau, yn ymarferol, oedd:

- hyrwyddo buddion amgylcheddol, amlbwrpasedd a chost-effeithiolrwydd coed a choetiroedd
- ei gwneud hi'n haws defnyddio coed a choetiroedd mewn ardaloedd trefol.

Y mecanweithiau ar gyfer cyflawni'r nodau hyn oedd:

- cyflogi swyddog prosiect am dair blynedd
- cynyddu ymwybyddiaeth o'r prosiect a'i fuddion
- cynnig cymorth grant hyd at 75 y cant o gost cynlluniau plannu coed cymunedol (50 y cant i fusnesau) a datblygu cymunedol cysylltiedig
- sicrhau arian cyfatebol gan fuddiolwyr grant ar gyfer gweddill cost cynlluniau plannu
- cynnig cyngor a help ymarferol gyda thyfu coed, a datblygu cymunedol sy'n gysylltiedig â phlannu coed.

Roedd briff eang gan y prosiect, heb unrhyw dargedau penodedig. Safleoedd yr ystyriwyd eu bod yn briodol ar gyfer plannu oedd:

- mewn unrhyw leoliad trefol neu gyrion tref neu borth
- safle o unrhyw faint
- ar dir preifat neu dir cyhoeddus
- ar gyfer plannu dros dro neu blannu parhaol.

Cefnogodd y prosiect 27 o gynlluniau plannu dros amrywiaeth o safleoedd trefol. Cyfanswm cost cymorth grant i'r rhain oedd £115,342. Mae hyn yn 70 y cant o gyfanswm cost cynlluniau, sef, £164,205.

Crynodeb

Fe wnaeth Cenhedlaethcoed weithio gyda grwpiau amgylcheddol, ysgolion, grwpiau cymunedol, busnesau ac unigolion i gyflawni cynlluniau plannu coed. Roedd eu cyfranogiad yn bwysig i drosglwyddo'r neges ynglŷn â phwysigrwydd coed mewn ardaloedd trefol. Fe wnaeth Cenhedlaethcoed gyflawni cynlluniau mewn:

- 9 o ysgolion
- 4 man cymunedol
- 4 safle busnes
- 1 cynllun canol tref
- 1 cynllun adfer tir diwydiannol
- 2 goridor trafnidiaeth.

Rhoddodd gyngor hefyd a/neu hwyluso 6 chynllun ychwanegol nad oeddent yn derbyn grant Cenhedlaethcoed.

Allborth allweddol prosiect arbrofol Cenhedlaethcoed oedd:

- Crëwyd 30 hectar o goetir trefol
- Plannwyd 59,300 o goed brodorol
- Plannwyd 308 o goed anfrodorol
- Bu 2,200 o bobl yn ymwneud â phlannu coed.

Prif ganlyniadau'r prosiect oedd:

- addasu'n well i newid hinsawdd
- gwell addysg a mwy o gyfleoedd dysgu
- gwell cydlyniad cymdeithasol a lles cymdeithasol
- mwy o adfywio ffisegol yn yr amgylchedd trefol
- gwell mynediad i goed a choetiroedd
- creu mwy o gynefin brodorol.

Y canfyddiadau allweddol o brosiect arbrofol Cenhedlaethcoed oedd:

- Cyflawnodd y prosiect ar draws ystod amrywiol o gynlluniau, partneriaid ac amgylcheddau.
- Gwelwyd dull Cenhedlaethcoed o weithio mewn partneriaeth, o ran ei strwythur a'i gyflawniadau, fel cryfder. Roedd yn annog ffurfio rhwydweithiau pwysig a sianelau cyfathrebu.
- Mae'n amlwg bod angen cymorth ariannol a chymorth cynghori ar gyfer plannu coed trefol. Mae angen i hwn fod ar gael i amrywiaeth eang o grwpiau ac unigolion.
- Gwelwyd bod cael pwynt cyswllt unigol ar gyfer arbenigedd ar faterion gwyrdd trefol yn bwysig eithriadol.
- Gwelwyd y diffyg ymwybyddiaeth o werth coed a choetiroedd mewn ardaloedd trefol fel rhwystr mawr i gyflawni cynlluniau plannu coed trefol.

Yn dilyn adolygiad o'r prosiect arbrofol Cenhedlaethcoed, gwneir naw o argymhellion. Rhoddir y rhain yn llawn, ynghyd â'u sail resymegol, yn Adran 8 yr adroddiad hwn. Dyma grynodeb ohonynt:

1. Dylai Comisiwn Coedwigaeth Cymru ystyried rhoi rhaglen gyfathrebu ar waith gyda sefydliadau preifat, gwirfoddol a chyhoeddus, a gyda'r cyhoedd, ar draws Cymru, ynglŷn â gwerth coed a mannau gwyrdd eraill mewn ardaloedd trefol.

2. Dylai Comisiwn Coedwigaeth Cymru a phartneriaid posibl ystyried y cyfleoedd sy'n cael eu cynnig gan yr angen am gymorth ariannol a chynghori. Dylent ddatblygu gwasanaeth cynghori i'r sector cyhoeddus a'r sector preifat a fyddai'n cyd-fynd â rhaglenni cymorth grant yn y dyfodol.

3. Dylai rhaglenni neu brosiectau cymorth grant yn y dyfodol ddefnyddio cryfderau model cymorth grant Cenhedlaethcoed i ddatblygu graddfa symudol o gymorth grant sy'n dibynnu ar y math o gynllun sydd i'w ariannu a'r math o ymgeisydd.

4. Dylid gwneud cysylltiadau mwy penodol â buddion materion gwyrdd trefol ar draws holl themâu strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

5. Yn y dyfodol, dylai swyddogion prosiect barhau'n bwynt cyswllt ar gyfer cynlluniau, a dylent feddu ar arbenigedd mewn un maes perthnasol o leiaf. Argymhellwn hefyd y dylid defnyddio arbenigwyr eraill i gynorthwyo swyddogion prosiect pan fydd angen.

6. Dylai Comisiwn Coedwigaeth Cymru gryfhau dull o weithio mewn partneriaeth ymhellach. Argymhellwn hefyd bod y dull hwnnw'n cynnwys yr arfer o sefydlu staff mewn sefydliadau eraill. Argymhellwn ymhellach bod y dull o weithio mewn partneriaeth a ddefnyddiwyd yn Cenhedlaethcoed yn cael ei gyfuno â dulliau prosiectau fel Cydcoed.

7. Dylid rhoi ystyriaeth o ddifrif i raglen Cymru gyfan i adeiladu ar gynllun arbrofol Cenhedlaethcoed. Dylai hon gynnwys ffocws ychwanegol ar ardaloedd o amddifadedd mawr.

8. Awgrymwn y dylai bwrdd penderfyniadau unrhyw brosiect sy'n rhoi grantiau fod â chynrychiolaeth o ddau sefydliad diduedd o leiaf, er mwyn osgoi gwrthdaro buddiannau.

9. Dylai prosiectau yn y dyfodol fod â chynllun prosiect, data sylfaenol, dangosyddion, a rhaglen fonitro a gwerthuso ar waith cyn iddynt dde.

1. Cyflwyniad

Cenhedlaethcoed yw enw prosiect arbrofol a gyflawnodd cynlluniau plannu coed trefol a oedd yn cynnwys cyfranogiad y gymuned. Bu'r cynllun arbrofol yn rhedeg o 2003 i 2008, ac fe'i dechreuwyd gan Adran Grantiau a Thrwyddedau Comisiwn Coedwigaeth Cymru. Cynhaliwyd y prosiect arbrofol yn Sir y Fflint a Wrecsam yng ngogledd ddwyrain Cymru.

Mae Swyddog Prosiect Cenhedlaethcoed ac Ymchwil Coedwigaeth wedi llunio'r adroddiad hwn, yn dilyn adolygiad o Cenhedlaethcoed. Ymchwil Coedwigaeth yw asiantaeth ymchwil y Comisiwn Coedwigaeth.

Pwysigrwydd mannau gwyrdd trefol

Mae man gwyrdd trefol cyhoeddus yn chwarae rhan hanfodol ym mywyd cymdeithasol cymunedau. Mae lle pwysig i goed mewn man gwyrdd trefol cyhoeddus. Un o brif ddibenion plannu coed trefol yw cysylltu pobl â natur, a helpu tuag at gyflawni nodau amgylcheddol. Enghraifft o nod amgylcheddol y mae plannu coed trefol yn helpu ei gyflawni yw bod coed yn helpu amsugno llygredd yn yr aer.

Mae tystiolaeth o bob rhan o'r byd yn dangos bod coed mewn ardaloedd trefol yn llesol i bobl am eu bod yn darparu lleoedd ar gyfer hamdden a dysgu. Gall y rhain, yn eu tro, arwain at well iechyd a lles, a natur gymdogol well.

Fodd bynnag, mae astudiaethau wedi dangos, hyd yn oed lle mae man gwyrdd mewn ardaloedd trefol, nid yw pobl yn ei ddefnyddio bob amser, ac nid oes ganddynt fynediad iddo bob amser ychwaith. Lle mae modd cael mynediad i fan gwyrdd, mae'r man gwyrdd hwnnw mewn cyflwr anniben yn aml. Canfu'r astudiaethau bod ansawdd man gwyrdd yn bwysicach i bobl na pha mor agos ydyw i'w cartrefi neu fannau gweithio.

Pam prosiect plannu coed trefol i Gymru?

Mae LlCC wedi ymrwymo i adfywio trefol, ond mewn polisïau blaenorol nid yw'n aml yn sôn am bwysigrwydd darparu man gwyrdd trefol o ansawdd da. Gall darparu man gwyrdd trefol o ansawdd da gyfrannu at lawer o nodau cymdeithasol ac amgylcheddol y Cynulliad.

Fodd bynnag, lluniwyd y rhan fwyaf o bolisïau LlCC rhwng 2000 a 2005. Mae newidiadau wedi bod ers hynny, ac mae polisïau mwy newydd yn cael eu llunio. Mae'r rhain yn debygol o roi mwy o bwyslais ar fan gwyrdd trefol. Yr adolygiad polisi mwyaf perthnasol yw'r adolygiad o strategaeth y Cynulliad Coetiroedd i Gymru. Mae'r adolygiad ar waith ar hyn o bryd (gaeaf 2008).

2. Nodau'r cynllun arbrofol cenhedlaethcoed

Nod Cenhedlaethcoed

Nod cyffredinol prosiect arbrofol Cenhedlaethcoed oedd canfod beth fyddai ei angen i blannu coed trefol yn llwyddiannus ar draws Cymru. Y prif nodau, yn ymarferol, oedd:

- hyrwyddo buddion amgylcheddol, amlbwrpasedd a chost-effeithiolrwydd coed a choetiroedd
- ei gwneud hi'n haws ac yn fwy deniadol i blannu a sefydlu coed a choetiroedd mewn ardaloedd trefol.

Rhagdybiwyd bod llwyddiant yn golygu cynnydd mewn plannu coed a defnyddio coetir trefol.

Yr ystod nodau ar gyfer cynlluniau cymorth grant Cenhedlaethcoed

Nid oedd y dogfennau cwmpasu ar gyfer y prosiect arbrofol yn cynnwys amcanion, na niferoedd targed o gynlluniau lleol i'w cyflawni. Cwmpas y prosiect oedd gweithio gyda phartneriaid trwy ddarparu grantiau i blannu coed, a oedd yn bodloni unrhyw un o'r nodau yn Nhabl 1, isod. Roedd y grantiau ar gyfer hyd at 75 y cant o gostau cynllun amgylcheddol neu gynllun cymunedol. Yn achos busnesau, 50 y cant o gymorth grant oedd y gyfran uchaf y gellid ei rhoi.

Bwriad Cenhedlaethcoed oedd mabwysiadu ymagwedd hyblyg at goedwigaeth drefol. Roedd hyn yn caniatáu ar gyfer amrywio dynamig ar lefel leol iawn. Cymhwyswyd yr hyblygrwydd hwn hefyd i'r mathau o safle yr ystyriwyd eu bod yn gymwys i gael cymorth grant. Roedd yn rhaid i safleoedd a oedd yn cael eu hystyried fod yn addas yn ffisegol i dyfu coed. Heblaw am hynny, gallent fod:

- mewn unrhyw leoliad trefol neu gyrion tref neu borth
- o unrhyw faint
- ar dir preifat neu dir cyhoeddus
- ar gyfer plannu dros dro neu blannu parhaol.

2. Nodau'r cynllun arbrofol cenhedlaethcoed

Amgylcheddol	Economaidd	Cymdeithasol
Creu neu wella cynefinoedd sy'n dod â bywyd gwyllt i drefi. Creu cyswllt rhwng ardaloedd bach â chynefinoedd tebyg. Darparu coridorau bywyd gwyllt yn yr ardal wledig o gwmpas. Creu tirwedd drefol ddeniadol. Meddalu llinellau caled adeiladau. Gwella ansawdd aer drwy hidlo a thrapio llygredd. Adfer tir. Lleihau'r defnydd o ynni mewn adeiladau cyfagos trwy ddarparu cysgod yn yr haf a lloches yn y gaeaf. Amsugno sŵn. Lleihau risg llifogydd Lleihau dŵr ffo o safleoedd sydd wedi'u hadfer. Sgrinio hyllbethau.	Creu lleoliadau deniadol ar gyfer gweithgaredd busnes. Gwella delwedd trefi er mwyn denu mewnfuddsoddi Trawsffurfio ardaloedd sydd wedi dirywio. Gwrth-droi dadfeilio trefol. Gwella delwedd gorfforaethol busnesau. Ychwanegu gwerth at eiddo. Cynyddu diogelwch safleoedd trwy blannu ar hyd ffiniau.	Creu amgylchedd dymunol i fyw a gweithio ynddo. Galluogi cyswllt â natur. Darparu ynysoedd deiliog yng nghanol trefi. Hybu iechyd trwy ddarparu amgylchedd adfywiol a therapiwtig y gellir ymlacio ynddo. Cynnig cyfleoedd hamdden. Rhoi ymdeimlad o berthyn i drigolion trwy gymryd rhan mewn plannu coed yn eu cymunedau eu hunain. Creu cymdogaethau mwy nodedig a hardd.

Tabl 1: Ystod Nodau Cenhedlaethcoed ar gyfer Cynlluniau Cymorth Grant

3. Methodoleg
sut y cafodd y prosiect arbrofol cenhedlaethcoed ei sefydlu

Partneriaeth
Roedd y prosiect arbrofol Cenhedlaethcoed yn bartneriaeth rhwng:

- Comisiwn Coedwigaeth Cymru
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (CBSW)
- Cyngor Sir y Fflint (CSFf)
- Groundwork Wrecsam a Sir y Fflint (GWFf)
- Awdurdod Datblygu Cymru (WDA).

(Mae'r WDA bellach yn rhan o Adran Menter ac Arloesi LlCC.)

Yn 2003 sefydlwyd partneriaeth ariannu a grŵp llywio i gynnal y prosiect arbrofol Cenhedlaethcoed, ac roedd hynny'n cynnwys cyflogi Swyddog Prosiect. Y sefydliadau a oedd yn rhan o'r prosiect oedd Comisiwn Coedwigaeth Cymru, CCGC, CSFf, CBSW a GWFf. Fe wnaeth Comisiwn Coedwigaeth Cymru dalu 50 y cant o gostau cynnal y prosiect. Darparodd CCGC, CBSW a CSFf y 50 y cant arall mewn rhannau cyfartal.

Swyddog Prosiect Cenhedlaethcoed
Cyflogwyd Swyddog Prosiect Cenhedlaethcoed gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru. Roedd disgwyl iddo rannu'i amser a'i arbenigedd rhwng Comisiwn Coedwigaeth Cymru, CBSW a CSFf. Mewn egwyddor, roedd y swyddog i dreulio 50 y cant o'i amser yn gweithio yn swyddfa Comisiwn Coedwigaeth Cymru yng Nghlawdd Newydd, ger Rhuthun, a 25 y cant o'i amser gyda phob un o'r awdurdodau lleol. Roedd ganddo ofod swyddfa yn swyddfeydd y ddau gyngor, ac felly roedd modd ei 'sefydlu' yn y ddau sefydliad. Mae swyddfeydd y cyngor yn Yr Wyddgrug (CSFf) ac yn Wrecsam (CBSW).

Fe gynigiodd Swyddog Prosiect Cenhedlaethcoed gyngor a chymorth ymarferol ar gynlluniau plannu trefol, yn ogystal â gweinyddu'r cymorth grant.

Cymorth grant i gynlluniau lleol
Talwyd y gost o ddarparu cymorth grant Cenhedlaethcoed i gynlluniau gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru ar ei ben ei hun. Daeth yn uniongyrchol o gyllideb graidd adran Grantiau a Thrwyddedau Comisiwn Coedwigaeth Cymru. Roedd yn rhaid i ymgeiswyr ddarparu arian cyfatebol i'r grant. Roedd Cenhedlaethcoed yn gallu cyfrannu cymorth grant tuag at gost cynllun ar gyfradd:

- hyd at 75 y cant ar gyfer cynlluniau cymunedol a/neu amgylcheddol
- hyd at 50 y cant ar gyfer cynlluniau busnes.

Roedd y costau y gellid eu cynnwys mewn cais am grant yn cynnwys:

- cynllunio, gan gynnwys ymarferiadau ymgynghori â phobl â diddordeb yn y cynllun arfaethedig
- digwyddiadau, fel diwrnodau plannu gwirfoddol
- prynu'r coed
- prynu offer cysylltiedig, fel polion neu gardiau
- tasgau sy'n gysylltiedig â sefydlu'r coed yn y lle cyntaf, fel chwynladdwyr a phlaladdwyr.

Y grŵp llywio oedd yn penderfynu ar y ceisiadau grant. Roedd yr ymgeisydd llwyddiannus a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru yn llofnodi cytundeb partneriaeth pan oedd y cymorth grant wedi'i gymeradwyo. Mae geiriad safonol y cytundeb partneriaeth wedi'i gynnwys fel Atodiad 4. Talwyd 70 y cant o'r cymorth grant Cenhedlaethcoed wedi'i gymeradwyo ar ôl cwblhau'r gwaith plannu coed yn llwyddiannus, gyda'r 30 y cant arall yn cael ei dalu wedi i'r coed ymsefydlu.

4. Gweithredu a chyflawni
sut y cynhaliwyd prosiect arbrofol cenhedlaethcoed

Cyfnod Un
Rhoddwyd Cenhedlaethcoed ar waith mewn dau gyfnod. Y cyfnod cyntaf oedd denu diddordeb cyrff eraill yn y syniad Cenhedlaethcoed, ffurfio grŵp llywio a chytuno cynnig.

Cytunodd y grŵp llywio ar nodau'r prosiect wedyn. Roedd y nod – sef canfod beth fyddai ei angen i blannu coed trefol yn llwyddiannus ar draws Cymru – yn un eang yn fwriadol. Y rheswm dros bennu cylch gwaith mor eang oedd sicrhau bod agenda trefol pob sefydliad partner yn cael ei groesawu.

Newidiwyd y cynnig ar gyfer y prosiect arbrofol sawl gwaith cyn dod i gytundeb yn derfynol. Roedd y cynnig gwreiddiol yn gofyn am dîm o swyddogion prosiect gydag ymagwedd fwy targedig o lawer i'w gweithredu. Cytunwyd ar y fersiwn o'r cynnig arbrofol a roddwyd ar waith mewn gwirionedd, yn 2003.

Cyfnod Dau
Cyflawni oedd ail gyfnod y prosiect. Bu'r cyfnod hwn yn rhedeg o 2004 i 2008, a phenodwyd Swyddog Prosiect Cenhedlaethcoed yn 2004. Ei friff oedd hyrwyddo coetir trefol a chychwyn a rheoli cynlluniau plannu coed trefol ar draws Wrecsam a Sir y Fflint.

Dyfeisiwyd Cenhedlaethcoed i fod yn fwy na mecanwaith rhoi grantiau'n unig. Un o'i wasanaethau pennaf oedd cynnig cyngor a chymorth ymarferol ar faterion plannu coed trefol. Nid oedd rhaid i'r rhain o angenrheidrwydd fod yn derbyn cymorth grant gan Cenhedlaethcoed.

Roedd Swyddog Prosiect Cenhedlaethcoed yn bwynt cyswllt unigol ar gyfer y prosiect. Gwnaeth yr holl waith gweinyddu, cyfathrebu a gwaith y cyfryngau. Yn ychwanegol at hyn, rhoddodd gyngor a chymorth arbenigol i unigolion a grwpiau.

Yng Nghyfnod Dau'r prosiect, gwelodd Swyddog Prosiect Cenhedlaethcoed yr angen am ddull dau gyfnod o weithredu'r prosiect arbrofol. Yn gyntaf, roedd angen rhaglen cynyddu ymwybyddiaeth a rhwydweithio. Byddai cyfnod cyflawni ac asesu yn dilyn.

Cynyddu ymwybyddiaeth a rhwydweithio
Roedd y dasg gan Swyddog Prosiect Cenhedlaethcoed i gynyddu ymwybyddiaeth ynglŷn â Cenhedlaethcoed a'i bosibiliadau ar gyfer cymunedau a busnesau yn Wrecsam a Sir y Fflint.

Gwnaeth hyn i ddechrau drwy:

- gyfarfodydd anffurfiol wedi'u trefnu gan Cenhedlaethcoed
- mynychu cyfarfodydd cymunedol, ar wahoddiad pobl eraill
- cyflwyniadau ffurfiol ar wahoddiad rhanddeiliaid a phartneriaid.

Roedd y cyflwyniadau ffurfiol hyn yn targedu amrywiaeth o gynulleidfaoedd, gan gynnwys adrannau awdurdodau lleol, fforymau busnes a sefydliadau eraill.

Trefnodd y Swyddog ymgyrch bostio taflenni gwybodaeth i bob busnes hysbys o fewn y ddwy sir. Roedd yr ymgyrch bostio hefyd yn cynnwys ysgolion, grwpiau cymunedol a sefydliadau eraill â diddordeb posibl.

Yn ogystal, crëwyd a 'phoblogwyd' gwefan prosiect Cenhedlaethcoed gan y Swyddog Cenhedlaethcoed.

Cyflawni

Gellir crynhoi'r ystod gwaith a wnaed gan Swyddog Prosiect Cenhedlaethcoed i gyflawni Cenhedlaethcoed naill ai fel:

- **Cymorth ariannol yn unig**
  Helpu ymgeiswyr i wneud cais am gymorth grant ar gyfer cynlluniau plannu coed neu goetiroedd a oedd yn bodloni'r meini prawf.

Neu:

- **Cymorth ymarferol a/neu gyngor yn unig**
  Rhoi cyngor ymarferol a thechnegol ar bob agwedd ar goedwigaeth drefol. Roedd hyn yn cynnwys manylebau plannu a chynnal a chadw ac ymarferiadau ymgynghori cymunedol.

Neu gyfuniad o'r ddau:

- **Cymorth ariannol a chymorth ymarferol.**
  Dyma pryd y darparodd Cenhedlaethcoed y grant, a phryd y gwnaeth ei Swyddog Prosiect a sefydliad partner (e.e. ysgol, sefydliad amgylcheddol neu fusnes) y plannu a'r cynnal a chadw. Hefyd, darparodd y Swyddog Prosiect gymorth arbenigol ac arbenigedd trwy gydol y broses.

O ble ddaeth y cynigion ar gyfer cynlluniau plannu gyda chymorth grant?

Daeth cynigion ar gyfer cynlluniau Cenhedlaethcoed lleol o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol. Fe wnaeth Swyddog Prosiect Cenhedlaethcoed ddatblygu, a chynnal partneriaethau gweithio gyda'r bobl hyn.

Swyddog coed un o'r cynghorau, neu BTCV neu GWFf oedd yn nodi cynlluniau i'w hystyried ar gyfer cymorth grant yn aml. Weithiau, roedd ysgolion, grwpiau cymunedol neu fusnesau yn mynd at Swyddog Prosiect Cenhedlaethcoed yn uniongyrchol i ofyn am gymorth.

Pa gyrff wnaeth gais am gymorth grant?

Sianelwyd rhan fwyaf y ceisiadau grant drwy BTCV, GWFf neu un o'r ddau awdurdod lleol. Yn yr achosion hyn, byddai BTCV, GWFf neu'r cyngor yn ymrwymo'r arian cyfatebol i ategu'r cymorth grant.

Darparwyd arian cyfatebol gan fusnesau lleol hefyd drwy eu cronfeydd amgylcheddol neu gymdeithasol corfforaethol. Fe wnaeth ychydig o gynlluniau ddarparu ar gyfer eu harian cyfatebol o gymysgedd o ffynonellau.

Sut oedd cais am gymorth grant yn cael ei wneud a'i asesu?

Roedd y dull o wneud cais am gymorth grant fel a ganlyn. Ar ôl gwneud yn siwr bod ceisiadau'n bodloni un neu fwy o'r meini prawf a restrir yn Nhabl 1, uchod, roedd sgôr yn cael ei roi i bob cais am ei gymhwysedd. Roedd yn rhaid i'r cais fod yn gynnig llawn. Roedd hyn yn cynnwys cynllun plannu a sefydlu, ac amcangyfrif llawn o gostau. Ceir ffurflen gais a lefelau sgorion yn Atodiad 2.

Os oedd cais yn gymwys i gael arian, roedd cyfarfod yn cael ei gynnal ar y safle rhwng Swyddog Prosiect Cenhedlaethcoed a'r ymgeisydd. Roedd addasrwydd y safle i dyfu coed yn cael ei asesu.

Faint o arian gafodd ei ddyfarnu mewn cymorth grant?

Roedd y rhan fwyaf o'r cynlluniau cymorth grant yn dibynnu ar Cenhedlaethcoed yn gallu darparu'r ganran uchaf o arian. Dros fywyd y prosiect arbrofol, rhyw 71 y cant oedd cyfran gyfartalog costau cynlluniau a roddwyd fel cymorth grant Cenhedlaethcoed. Y swm uchaf a ddyfarnwyd oedd £13,655 a'r swm isaf oedd £550. Dangosir cyfanswm y cymorth grant isod yn Nhabl 2. Rhoddir rhestr lawn o gynlluniau cymorth grant yn Atodiad 1.

Nifer y prosiectau wedi cael cymorth grant	Swm cymorth grant Cenhedlaethcoed a ddyfarnwyd	Swm yr arian cyfatebol	Cyfanswm costau cynlluniau	Cost gyfartalog fesul cynllun cymorth grant
21	£115, 342	£48,863	£164,205	£7,819

Tabl 2: Crynodeb o Gost Cynlluniau Cymorth Grant yn y Prosiect Arbrofol Cenhedlaethcoed

Ble rhoddwyd y cynlluniau cymorth grant ar waith?

Mae dadansoddiad o'r mathau o gynlluniau yn cael ei ddangos yn Ffigur 1, isod.



Ffigur 1: Nifer o Gynlluniau Cenhedlaethcoed a gafodd Gymorth Grant a'r Mathau o Safleoedd

Fel a ddangosir yn Ffigur 1, rhoddwyd y rhan fwyaf o'r cynlluniau ar waith mewn ysgolion. Roedd llawer o'r ysgolion hyn eisiau gwella'u safleoedd. Yn benodol, roedd nifer ohonynt eisiau creu ardal addysgu dan gysgod yn yr awyr agored. Parhaodd Swyddog Prosiect Cenhedlaethcoed yn weithredol yn y cynlluniau hyn, ond fe wnaeth hefyd annog cyfranogiad Menter leol Addysg y Coed a/neu Swyddog Coetiroedd ar gyfer Dysgu Comisiwn Coedwigaeth Cymru.

I ba sefydliadau y dyfarnwyd grantiau?

Roedd cytundeb partneriaeth gyda Chomisiwn Coedwigaeth Cymru gan bob un o'r cynlluniau cymorth grant. Mae Ffigur 2, isod, yn dangos yr ystod o sefydliadau a oedd â chytundebau partneriaeth. Yn ychwanegol at yr 21 yma, roedd dros 35 o sefydliadau eraill yn gysylltiedig â phrosiectau Cenhedlaethcoed. Mae'r 35 hwn yn cynnwys y sefydliadau a gafodd cyngor a chymorth, ond dim cymorth grant.



Ffigur 2: Nifer a Mathau o Sefydliadau a gafodd Gymorth Grant gan Brosiect Arbrofol Cenhedlaethcoed

Sut gafodd y cynlluniau cymorth grant eu rheoli?

Roedd angen i bob cynllun gael rheolwr prosiect penodedig i gyflawni a chynorthwyo'r cynllun. Am fod yr ymgeiswyr a chynlluniau'n amrywio, roedd ymagwedd grŵp llywio Cenhedlaethcoed at hyn yn un hyblyg. Mewn achosion lle'r oedd grwpiau amgylcheddol fel GWFf neu BTCV yn cynnig cynlluniau, yna swyddogion o'r sefydliadau hynny fyddai'n rheoli'r prosiectau. Lle dyfarnwyd grant i'r awdurdod lleol, naill ai swyddog coed y cyngor neu Swyddog Prosiect Cenhedlaethcoed oedd yn rheoli'r prosiect. Mewn rhai achosion eraill, fel cynlluniau gan grwpiau cymunedol, y Swyddog oedd yn rheoli'r cynlluniau.

Ym mhob un o'r achosion, roedd disgwyl i'r rheolwr prosiect ymgynghori â rhanddeiliaid lleol cyn bod y cynllun yn dechrau. Roedd rhanddeiliaid yn cynnwys trigolion lleol, ysgolion, cyflogeion, busnesau lleol a sefydliadau lleol. Roedd y rhanddeiliaid hyn yn cael eu hannog i gyfranogi yn eu cynllun hefyd. Fe allai'r cyfranogiad hwn gynnwys dylunio, plannu a chynnal a chadw.

Cyfrifoldeb ei reolwr prosiect penodedig oedd cyflawni pob cynllun yn llwyddiannus. Roedd ei waith yn cynnwys rhedeg y cynllun o ddydd i ddydd a chadw at amser a chyllideb, gan wneud yn siwr bod nodau cyffredinol y cynllun yn cael eu cyflawni.

Sut oedd cynlluniau cymorth grant yn cael eu monitro?

Roedd Swyddog Prosiect Cenhedlaethcoed yn parhau'n gyfrifol am fonitro pob un o'r cynlluniau. Gwnaed hyn drwy arolygiadau gweledol a chyfarfodydd ar safleoedd. Yn gyffredinol, roedd y monitro wedi'i gyfyngu i'r cynlluniau plannu. Nodwyd cynnydd y coed ar ôl plannu, yn hwyr yn y gwanwyn ac ar ddiwedd pob tymor tyfu.

Cynlluniau Cenhedlaethcoed na chafodd gymorth grant

Cylch gwaith pwysig ychwanegol Cenhedlaethcoed oedd darparu cymorth ymarferol - nid cymorth ariannol - i gynlluniau plannu coed trefol. Gofynnodd chwe chynllun am gyngor yn unig. Roedd angen arbenigedd tyfu coed ar rai, ac roedd rhai eraill eisiau cyngor ar ymgynghori cymunedol neu oruchwylio diwrnodau plannu.

5. Allborth a chanlyniadau
yr hyn a gyflawnwyd

Allborth

Nid oedd unrhyw dargedau ar gyfer canlyniadau disgwyliedig o brosiect arbrofol Cenhedlaethcoed. Y ffaith i'r prosiect gael ei sefydlu â briff eang oedd y rheswm am hyn. Erbyn diwedd y prosiect arbrofol, yn 2008, roedd Cenhedlaethcoed wedi rhoi cymorth grant i 21 o brosiectau ar draws gogledd ddwyrain Cymru. Rhoddwyd cymorth anariannol i chwe phrosiect arall.

Mesurwyd yr allborth o'r prosiectau hyn mewn:

- niferoedd y coed a blannwyd
- hectarau a blannwyd
- nifer y bobl a fu'n gysylltiedig â phlannu'r coed. .

Swyddog Prosiect Cenhedlaethcoed oedd yn casglu'r data hwn ynghyd. Lle'r oedd cynlluniau'n cael eu rheoli gan BTCV, mae'r wybodaeth hon wedi'i chroesgyfeirio â'i gofnodion. Nid yw wedi bod yn bosibl croesgyfeirio gyda rheolwyr cynlluniau eraill.

Roedd cyfanswm yr allborth o brosiectau cymorth grant Cenhedlaethcoed fel a ganlyn:

Allborth	Nifer
Hectarau o goetir trefol a grëwyd	30
Coed brodorol a blannwyd	53,500
Coed anfrodorol a blannwyd	880
Pobl yn gysylltiedig â phlannu coed	2,200

Tabl 3 : Cyfanswm Adborth Prosiectau Arbrofol Cenhedlaethcoed

Canlyniadau

Mae'r ceisiadau am gyllid Cenhedlaethcoed yn dangos amrediad o ganlyniadau disgwyliedig o gynlluniau. Rhoddir y rhain isod yn Nhabl 4.

Canlyniad disgwyliedig	Nifer y cynlluniau*
Cynnydd mewn gwerth bioamrywiaeth man gwyrdd	10
Gwelliant mewn gwerth amwynder man gwyrdd	4
Mwy o gyfalaf cymdeithasol	4
Cynnwys grwpiau sydd wedi'u hallgau'n gymdeithasol (troseddwyr ifanc, plant sydd wedi'u gwahardd, ac ati)	5
Gwell cyfleoedd addysgol	6
Gostyngiad mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol	1
Gwerth esthetig gwell i safle	21

Tabl 4: Canlyniadau Disgwyliedig Prosiect Arbrofol Cenhedlaethcoed

* Mae cyfanswm y golofn hon yn fwy na chyfanswm nifer y cynlluniau am y gallai ymgeiswyr fod wedi nodi mwy nag un canlyniad disgwyliedig ar eu cais.

Ni chasglwyd unrhyw ddata sylfaenol cyn i'r prosiect ddechrau, ac ni phennwyd unrhyw ddangosyddion ar gyfer monitro a gwerthuso canlyniadau. Gyda'r sefyllfa hon, dim ond rhagdybio y gallwn ni wneud bod canlyniadau disgwyliedig cynlluniau wedi'u cyflawni. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw ganlyniadau annisgwyl. Gan ragdybio bod y canlyniadau disgwyliedig wedi digwydd, mae Cenhedlaethcoed wedi bod o fudd i bobl a'r amgylchedd. Fodd bynnag, ni allwn feintoli na chymhwyso'r canlyniadau neu fuddion hynny ar hyn o bryd.

5. Allborth a chanlyniadau yr hyn a gyflawnwyd

Tynnodd ymchwil anffurfiol gyda phartneriaid Cenhedlaethcoed sylw at y prif ganlyniadau disgwyliedig o'r prosiect. Gellir grwpio'r rhain o dan chwe thema:

Addasu'n well i newid hinsawdd

Mae gallu rhai cymunedau o fewn yr ardal arbrofol i addasu i newid hinsawdd wedi gwella o ganlyniad i blannu mwy o goed a choetiroedd i gael cysgod. Mae hon yn nodwedd benodol yng nghynlluniau'r ysgolion. Hefyd, mae mwy o ymwybyddiaeth o bwysigrwydd plannu coed i ddal a storio carbon.

Gwell addysg a mwy o gyfleoedd dysgu

Bydd plant ysgol yn plannu ac yn cynnal a chadw coed ar dir ysgolion wedi cynyddu'u dealltwriaeth a'u gwerthfawrogiad o'r amgylchedd. Fe wnaeth llawer o gynlluniau greu mannau dysgu awyr agored mewn ysgolion. Bydd cyfranogiad y SAC a Thîm Coetiroedd ar gyfer Dysgu Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi galluogi plant i elwa ymhellach. Bydd gwirfoddolwyr yn cymryd rhan mewn cynlluniau plannu wedi elwa o ddysgu anffurfiol hefyd.

Fe wnaeth Ysgol Fabanod Parc Borras yn Wrecsam greu ardal addysgu awyr agored gyda'i grant Cenhedlaethcoed. Yn dilyn hyn, mae'r ysgol wedi cyflogi Arweinydd Ysgol Goedwig amser llawn. Mae'r Arweinydd yn cyflwyno rhaglen ddyddiol o weithgareddau addysgol cysylltiedig yn yr ardal sydd wedi'i phlannu â choed. Mae tystiolaeth anecdotaidd gan nifer o athrawon yn dangos, ers hyn, bod agweddau llawer o'r disgyblion tuag at yr amgylchedd, ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn yn arbennig, wedi gwella.

Gwell cydlyniad cymdeithasol a lles cymdeithasol

Mae dod â phobl ynghyd trwy weithgareddau newydd yn helpu i greu ymdeimlad o berthyn. Gall hefyd greu rhwydweithiau a chyfeillgarwch newydd ac annog pobl i ryngweithio â'i gilydd. Mae bod yn rhan o gynlluniau Cenhedlaethcoed wedi dod â phobl ynghyd ac wedi'u cynnwys mewn gweithgareddau tîm. Bydd hyn wedi helpu i feithrin ymdeimlad o gymuned a pherthyn, yn ogystal â magu hunanhyder.

Cafodd cynllun Coetir Cymunedol Central Park, yng Nghei Connah, gymorth grant gan Genhedlaethcoed. Daeth â dros 500 o bobl leol ynghyd i wella'u hamgylchedd lleol. O ganlyniad, ffurfiwyd grŵp Cyfeillion Central Park. Mae'r grŵp yn dal i wella'r parc trwy ddatblygu prosiectau pellach.

Mwy o adfywio corfforol yn yr amgylchedd trefol

Plannodd cynlluniau Cenhedlaethcoed 30 hectar o goetir brodorol yn bennaf. Gwnaeth hyn gyfraniad sylweddol at adfywio amgylcheddau trefol.

Gwell mynediad i goed a choetiroedd:

Gwnaethpwyd yr holl waith plannu gerllaw busnesau, cymunedau neu ysgolion, ac felly crëwyd mwy o gyfle i allu defnyddio man gwyrdd o safon. Gellir defnyddio'r rhan fwyaf o'r cynlluniau ar gyfer hamdden.

Creu mwy o gynefin coetir brodorol

Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod gwelliannau wedi'u gwneud yn barod ym mioamrywiaeth safleoedd sydd wedi'u plannu oherwydd Cenhedlaethcoed.

6. Myfyrio ac asesu
yr hyn a ddysgwyd

Nid oedd dull ffurfiol na dull a gytunwyd o werthuso prosiect arbrofol Cenhedlaethcoed. Serch hynny, trwy fyfyrio ynghylch yr hyn a weithiodd yn dda yn y prosiect arbrofol, a'r hyn na wnaeth weithio'n dda, gallwn weld rhai canfyddiadau allweddol.

Mae'r adran hon yn cynnwys crynhoad o gyfweliadau gyda Swyddog Prosiect Cenhedlaethcoed a phartneriaid ar y grŵp llywio. Fe wnaethant ystyried eu profiadau a thynnu sylw at gryfderau a gwendidau'r cynllun arbrofol. Gan edrych ymlaen at yr hyn fyddai ei angen i blannu coed trefol yn llwyddiannus ar draws Cymru, maent wedi gwneud argymhellion i wella yn y dyfodol.

Nodau

Nod cyffredinol prosiect arbrofol Cenhedlaethcoed oedd asesu'r posibiliad o gynnal prosiect coedwigaeth drefol cenedlaethol yng Nghymru. Prif ffocws y prosiect arbrofol oedd hyrwyddo'r modd y mae coed yn gwella'r amgylchedd trefol. Trwy gynlluniau plannu coed a gafodd gymorth grant y gwnaethpwyd y gwelliant yn bennaf. Er nad oedd nod cyfiawnder cymdeithasol penodol i'r prosiect, gwnaeth y prosiect arbrofol gyfraniad cadarnhaol hefyd tuag at agenda cyfiawnder cymdeithasol LlCC. Ar sail asesiad o'r prosiect arbrofol, mae'r adroddiad hwn yn gwneud argymhellion ar gyfer posibiliad cynnal prosiect coedwigaeth drefol cenedlaethol yng Nghymru (yn Adran 7).

Partneriaeth rhwng y grŵp llywio / partneriaid ariannu

Golygodd y bartneriaeth rhwng aelodau'r grŵp llywio fod y prosiect arbrofol wedi gwreiddio yn y ddau awdurdod lleol, yn ogystal â Chomisiwn Coedwigaeth Cymru. Anogodd hyn rwydweithiau a sianelau cyfathrebu pwysig. Fel arall, byddent wedi cymryd mwy o amser o lawer i ffurfio, neu ni fyddent wedi bodoli. Golygodd hefyd bod modd i Swyddog Prosiect Cenhedlaethcoed a swyddogion yr awdurdod lleol gael mynediad hawdd i arbenigedd cyfredol.

Er gwaetha'r tensiynau a drafodir isod, teimlodd pawb fod y dull gweithio mewn partneriaeth yn un o gryfderau'r prosiect. Gellid cryfhau partneriaethau yn y dyfodol gan ddull â mwy o ffocws a dull wedi'i dargedu'n well o'r cychwyn cyntaf.

Diffyg cynllun prosiect

Roedd nod cyffredinol gan brosiect arbrofol Cenhedlaethcoed, ynghyd ag egwyddorion arwain. Nid oedd ganddo gynllun prosiect gyda thargedau ac allborth penodol. Heb gael ei gyfyngu gan dargedau penodedig, gallai Swyddog Prosiect Cenhedlaethcoed fabwysiadu dull hyblyg a dynamig at gynlluniau. Golygodd hyn bod amrywiaeth o brosiectau ar draws amrywiaeth o safleoedd wedi'u cynnal gydag amrediad o bartneriaid a rhanddeiliaid.

Fodd bynnag, roedd diffyg cynllun prosiect yn golygu bod Swyddog Prosiect Cenhedlaethcoed yn gorfod dyfalu beth oedd ei angen yn aml. Hefyd, canlyniad diffyg cynllun oedd gweld cyflawniad – cyfathrebu'n eang a chynyddu ymwybyddiaeth yn eang – yn negyddol. Y rheswm am hyn oedd y collwyd y tymor plannu cyntaf yn ystod yr amser hwn.

Mae cyfweliadau gyda Swyddog Prosiect Cenhedlaethcoed yn awgrymu y byddai cael cynllun prosiect wedi ei helpu i flaenoriaethu gweithredoedd mewn dull â mwy o strwythur, a byddai wedi gallu cynllunio'n unol â hynny.

Swyddog Prosiect Cenhedlaethcoed

Trefniadau gweithio
Mae perthynas weithio lle mae swyddog yn cael ei gyflogi ar y cyd (neu'n cael ei gyflogi gan un sefydliad ond yn eistedd mewn sefydliad arall) yn eithaf cyffredin mewn awdurdodau lleol yng Nghymru ac yn CCGC. Nid yw'r math hwn o weithio mewn partneriaeth wedi bod yn beth cyffredin yng Nghomisiwn Coedwigaeth Cymru. Roedd CCGC a'r awdurdodau lleol a fu'n rhan o brosiect Cenhedlaethcoed yn awyddus i weld

y perthnasoedd a adeiladwyd yn ystod y prosiect arbrofol yn parhau ac yn datblygu. Maent yn teimlo y byddai'n bwysig cael mathau tebyg o berthnasoedd mewn rhaglen blannu coed trefol ar draws Cymru gyfan.

Fodd bynnag, fe wnaeth cael Swyddog Prosiect Cenhedlaethcoed yn gweithio gyda thri phartner gwahanol greu rhai tensiynau. Gwelwyd cyfyngiadau o ran ei amser, yn ogystal â dyrannu amser, fel anhawster – nid lleiaf gan y Swyddog ei hun. Gwnaeth ardal brosiect ddaearyddol fawr y broblem yn waeth oherwydd dosbarthiad eang cynlluniau cymorth grant.

Yn ddamcaniaethol, dylai Swyddog Prosiect Cenhedlaethcoed fod wedi treulio 50 y cant o'i amser yng Nghomisiwn Coedwigaeth Cymru, a 25 y cant gyda phob un o'r awdurdodau lleol. Pe bai targedau penodedig ar gyfer pob sefydliad partner yn adlewyrchu'r rhaniad hwn, byddai wedi bod yn ymarferol. Fodd bynnag, roedd Cenhedlaethcoed yn dibynnu ar grwpiau, busnesau neu sefydliadau yn gwneud cais am grantiau i wneud cynlluniau. Y realiti oedd bod y Swyddog yn treulio mwy o'i amser yn y fan lle'r oedd mwyafrif y cynlluniau cymorth grant: Sir y Fflint.

Cymhlethwyd y sefyllfa hon gan y strwythurau trefniadol presennol yn yr awdurdodau lleol. Roedd dau swyddog gan CBSW yn gyfrifol am goed a choetiroedd ar dir a oedd yn eiddo i'r cyngor, a swyddog arall i ddelio â diogelu coed ar dir preifat. Roedd dau swyddog gan CSFf yn canolbwyntio'n bennaf ar ddiogelu'r coed a'r coetiroedd presennol yn y sir. Roedd cyllideb sylweddol gan swyddogion CBSW yn eu galluogi i reoli, cynnal a chadw a chynyddu gorchudd coed. Nid oedd adnodd tebyg gan swyddogion CSFf, ac felly gwnaethant fwy o ddefnydd o'r cyfleoedd a gynigiwyd gan gyllid Cenhedlaethcoed.

Daeth yn amlwg hefyd bod tensiynau ynglŷn â'r prosiect yn adrannau'r awdurdodau lleol, a rhyngddynt. Gellir crynhoi'r problemau hyn fel a ganlyn:

- Diffyg staff cymorth ar gyfer cyfathrebu a gweinyddu. Arweiniodd hyn at y Swyddog yn treulio'r pum mis cyntaf o'i amser yn cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd. Roedd ei weithgareddau'n cynnwys brandio'r prosiect, ymgyrchoedd hyrwyddo, dylunio gwefan a thaflenni, ac ysgrifennu copi ar gyfer y wefan a'r daflen. Collwyd y tymor plannu coed cyntaf o ganlyniad i hyn.
- 'Blinder mentrau' bondigrybwyll gan awdurdodau lleol.
- Canfyddiad o ddiffyg dealltwriaeth ynglŷn â diben Cenhedlaethcoed gan rai adrannau cyngor.
- Roedd yr awdurdodau lleol yn ochelgar o gost bosibl cynnal a chadw ac adnewyddu coed ar gyfer cynlluniau ychwanegol ar eu tir eu hunain.
- Roedd rhai adrannau cyngor yn feirniadol o Cenhedlaethcoed. Nid oeddent yn gallu gweld potensial y prosiect, ac roeddent yn ddifater o ran y cyfleoedd a gynigiwyd ganddo.
- Roedd y modd yr oedd Cenhedlaethcoed yn gweithio ym mhob awdurdod lleol yn dibynnu ar eu trefniadau sefydliadol ac ariannu presennol.

Gellid fod wedi goresgyn llawer o'r rhwystrau hyn yng nghyfnodau dylunio a datblygu Cenhedlaethcoed. Yn benodol, byddai'r canlynol yn helpu i leihau tensiynau felly yn y dyfodol:

- gosod targedau daearyddol priodol
- cyflogi un swyddog fesul ardal awdurdod lleol
- cyflogi, neu neilltuo, staff cymorth ar gyfer gweinyddu a chyfathrebu.

Cymwyseddau
Golygai natur hyblyg ac ystod eang cynlluniau Cenhedlaethcoed bod y sgiliau yr oedd angen i Swyddog Prosiect Cenhedlaethcoed feddu arnynt fod lawn mor eang a hyblyg. Mae'n beth prin i gael aelod o staff Comisiwn Coedwigaeth Cymru sy'n arbenigwr tyfu coed ac yn arbenigwr datblygu cymunedol. Roedd angen y ddwy sgil ar gyfer swydd Swyddog Prosiect Cenhedlaethcoed. Galwyd arno hefyd i ddatblygu a chynnal gwefan y prosiect. Aeth hwn â llawer o'i amser, ac roedd yn gofyn am sgiliau technegol penodol a sgiliau cyfathrebu. Teimlai'r Swyddog nad oedd yn gymwys iawn i wneud y gwaith hwn.

Rydym yn cydnabod y gall hyfforddi a datblygu helpu staff i ddysgu sgiliau. Fodd bynnag, mae llawer o'r sgiliau gofynnol eisoes yn bodoli yng Nghomisiwn Coedwigaeth Cymru – sgiliau cyfathrebu, ariannol, cyfreithiol a gweinyddol. Argymhellwn fod swyddogion prosiect yn y dyfodol yn bwynt cyswllt ar gyfer cynlluniau, ac y dylent feddu ar arbenigedd mewn o leiaf un maes perthnasol. Dylai arbenigwyr eraill gynorthwyo â'u gwaith, a dylid dyrannu gwasanaethau cymorth canolog i Cenhedlaethcoed, e.e. ar gyfer cyfathrebu.

Mae'r tabl yn Atodiad 2 yn rhoi manylion cymwyseddau staff ar gyfer Swyddog Prosiect Cenhedlaethcoed. Mae'n awgrymu cymwyseddau craidd hefyd ar gyfer swyddi tebyg mewn prosiectau plannu coed trefol sy'n cynnwys cymorth cymunedol/datblygu cymunedol. Argymhellwn fod Swyddogion Prosiect Cenhedlaethcoed yn y dyfodol yn deall:

- monitro a gwerthuso allborth a chanlyniadau prosiectau
- sut i gael cyngor arbenigol a mewnbwn arbenigol, ac ymhle
- sut i gyfathrebu gyda chynulleidfaoedd gwahanol.

Cymorth grant a chyflawni cynlluniau

Cynyddu ymwybyddiaeth
Daeth yn amlwg yn gynnar ym mywyd y prosiect arbrofol bod cynyddu ymwybyddiaeth yn fwy angenrheidiol nag a feddyliwyd yn gyntaf. Roedd yn cymryd llawer mwy o amser hefyd. Y rheswm y cymerodd gymaint o amser oedd bod rhaid goresgyn agweddau negyddol presennol tuag at goed. Roedd diffyg dealltwriaeth ynglŷn â buddion posibl man agored gwyrdd o ansawdd da.

Cafwyd gwrthwynebiad penodol gan fusnesau. Roedd busnesau'n ofni y byddai gorchudd coed yn broblem diogelwch. Roeddent yn meddwl y byddai coed yn cynyddu troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn wir, roedd heddlu lleol wedi cynghori busnesau ar Ystad Ddiwydiannol Wrecsam i beidio â phlannu coed neu lwyni ar eu safleoedd.

Cytunai'r holl bartneriaid na fyddai Swyddog Prosiect Cenhedlaethcoed wedi gallu gwneud mwy, o gofio cyfyngiadau'r prosiect, i gynyddu ymwybyddiaeth. Fodd bynnag, roedd gwrthwynebiadau mewn rhai mannau o hyd.

Nid yw goresgyn y farn negyddol am blannu coed trefol yn rhywbeth y gellir ei gyflawni'n gyflym. Ni all prosiect bach fel Cenhedlaethcoed newid y farn gyffredinol ychwaith. Fe gymerai newid mawr ar yr agenda gwleidyddol i ddechrau mynd i'r afael ar agweddau felly. Mae angen i hyn fynd law yn llaw ag ymagwedd â mwy o ffocws at blannu coed trefol mewn rhai awdurdodau lleol. Hefyd, mae angen dyrannu adnoddau digonol i blannu coed a'u cynnal a'u cadw. Mae angen mwy o gyfathrebu, mwy o gyngor a mwy o 'ddal dwylo' i helpu pobl i ddeall pam mae coed trefol yn bwysig. Mae angen ymrwymo cryn dipyn o amser ar gyfer anghenion cyfathrebu, ynghyd â sgiliau penodol gan swyddogion.

Yr amrywiaeth cynlluniau a gyflawnwyd
Roedd yn bwysig bod Cenhedlaethcoed mor hyblyg â phosibl o ran yr hyn y gallai gyflawni. Roedd cylch gwaith eang gan y prosiect ar gyfer mathau cynlluniau cymwys, tir cymwys a'r rheiny a oedd yn gymwys i gael cymorth grant. Roedd partneriaid y grŵp llywio yn gweld yr hyblygrwydd a'r ehangder hwn fel cryfder ac fel gwendid.

Roedd y cylch gwaith eang yn caniatáu ar gyfer ymgysylltu ag ystod amrywiol o bobl â diddordeb, a datblygu ystod amrywiol o brosiectau. Golygai hyn fod Cenhedlaethcoed wedi dangos buddion coed mewn ardaloedd trefol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd: o rodfeydd siopa i dir ysgolion i ystadau diwydiannol. I'r gwrthwyneb, arweiniodd y cylch gwaith eang hwn at ddiffyg ffocws a chyfeiriad hefyd. Hefyd, pennodd ddisgwyliad afrealistig i gyflawni ar un swyddog prosiect.

Cymorth grant ac arian cyfatebol
Roedd Cenhedlaethcoed, yn ddamcaniaethol, yn gallu rhoi cymorth grant i unrhyw sefydliad neu gorff a allai gyflawni plannu coed trefol. (Mae Atodiad 1 yn rhestr lawn o brosiectau a gafodd gymorth grant a ffynonellau arian cyfatebol ar gyfer pob un). Wrth ymrwymo i roi arian cyfatebol i grant, roedd derbynyddion yn ymrwymo i ethos y prosiect. Fe wnaeth hyn gryfhau neges Cenhedlaethcoed ynglŷn â buddion coed trefol. Teimlai partneriaid y grŵp llywio bod hyn yn un o gryfderau pwysig y prosiect. Golygai arian cyfatebol hefyd fod gan dderbynyddion grantiau ddiddordeb yng nghynaliadwyedd eu cynlluniau.

Denodd Cenhedlaethcoed y math o ymgeisydd a oedd yn gallu dod o hyd i arian cyfatebol yn gymharol hawdd. Deuai'r arian cyfatebol naill ai o gyllid yr ymgeisydd ei hun, neu o gyllid allanol arall. Er hynny, fe wnaeth llawer o ymgeiswyr wneud cais am y gyfran lawn o gost eu cynllun a oedd yn cael ei chaniatáu, neu gerllaw hynny. Yn y dyfodol, mae angen i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru weithredu graddfa symudol o gymorth grant. Gellid teilwra hyn wedyn yn ôl y math o gynllun a'r math o ymgeisydd.

Perthynas gyda'r rhai a dderbyniodd grantiau
Ffurfiolwyd y berthynas rhwng Comisiwn Coedwigaeth Cymru a'r rhai a dderbyniodd grantiau trwy lofnodi cytundeb partneriaeth. Wedyn roedd gan Swyddog Prosiect Cenhedlaethcoed bartneriaeth gyfyngedig a gweddol fyr gyda'r corff a oedd yn derbyn grant. Roedd y natur fyrhoedlog hon yn ganlyniad cyfyngiadau ar amser y Swyddog a strwythurau sefydliadol o fewn y rhai a dderbyniodd gymorth grant, fel BTCV a GWFf. Er eu byrder, cydnabuwyd bod y perthnasoedd hyn yn werthfawr.

Nodweddion ymarferol cyflwyno cymorth grant
Un anhawster oedd nad oedd un pwynt cyswllt ar gyfer yr holl gynlluniau Cenhedlaethcoed yn cael eu rheoli gan un sefydliad. Er enghraifft, ar gyfer pum cynllun lle mae GWFf oedd y buddiolwr grant, enwyd pump o reolwyr prosiect gwahanol. Teimlai Swyddog Prosiect Cenhedlaethcoed fod y sefyllfa hon yn ei orymestyn. Roedd hefyd yn gwaethygu'r anawsterau o weithio mewn tair swyddfa ar wahân mewn tri sefydliad (gweler y paragraff Trefniadau Gweithio Cenhedlaethcoed, uchod).

O gofio sefyllfa prosiect arbrofol Cenhedlaethcoed, byddai'r tensiynau hyn wedi bod yn anodd eu goresgyn beth bynnag. Fodd bynnag, dylai prosiectau'r dyfodol ar y model Cenhedlaethcoed gynllunio sut i reoli partneriaethau gyda sefydliadau allanol yn effeithiol. Gall cael staff Cenhedlaethcoed ychwanegol fod yn ddigon. Hefyd, gallai'r cytundeb prosiect ofyn am bwynt cyswllt unigol gyda buddiolwyr mwy nag un grant Cenhedlaethcoed.

Ymatebion mathau gwahanol o dderbynyddion grant, a'r modd y gwnaethant elwa

Ysgolion
Fe wnaeth cyfweliadau gyda Swyddog Prosiect Cenhedlaethcoed a dwy o'r ysgolion a gymerodd ran ddangos bod cysylltiadau a sefydlwyd gan Cenhedlaethcoed yn werthfawr, ond yn fyrhoedlog. Gweithiodd cyfranogiad ychwanegol SAB neu Swyddog Coetiroedd ar gyfer Dysgu Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn dda. Arweiniodd eu cyfraniadau at blant yn cael mwy o fudd o'r cynlluniau nag a ragwelwyd yn wreiddiol.

Busnesau
Ar ystadau diwydiannol oedd y rhan fwyaf o'r cynlluniau yr ymgymerodd busnesau â nhw. Roedd rhai cynlluniau busnes yn anoddach eu hadolygu nag eraill. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu yr ymgymerwyd â'r cynlluniau er amwynder gweledol yn unig. Nid oedd agenda cymdeithasol ehangach gan y busnes.

Ymddengys bod y plannu o amgylch busnesau neu unedau diwydiannol wedi'i wneud am fod y grant ar gael. Er nad yw hyn yn negyddu buddion gwirioneddol plannu coed, nid yw o angenrheidrwydd yn arwain at gynyddu dealltwriaeth o fuddion coed. Partneriaid busnes oedd y rhai anoddaf i'w cael i gyfranogi yn y prosiect. Yn aml, nid oedd modd eu hargyhoeddi bod buddion plannu coed yn gwrthbwyso risg ganfyddedig cynyddu posibilrwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol a fandaliaeth o amgylch eu safleoedd.

Awdurdodau Lleol
Roedd gwahaniaethau sefydliadol yn dylanwadu ar y ffordd y defnyddiodd y ddau awdurdod lleol y prosiect arbrofol Cenhedlaethcoed. Fe wnaeth nifer y swyddogion coed a'r cyllidebau a oedd ar gael iddynt effeithio ar argaeledd arian cyfatebol.

Yn Wrecsam, cyflwynodd Rheolwr Coedyddiaeth yr awdurdod safleoedd y mae'r cyngor yn berchen arnynt fel cynlluniau. Roedd hyn yn gwneud yn siwr bod y safleoedd hyn wedyn yn cael eu cynnwys yn y rhaglen blannu flynyddol ar gyfer y sir. Mae hyn wedi sicrhau rheolaeth hirdymor i'r cynlluniau hyn.

Yn Sir y Fflint, nid oedd fawr o gyllideb neu ddim cyllideb yn yr awdurdod ar gyfer plannu trefol. Lle cyflwynwyd safleoedd y mae'r cyngor yn berchen arnynt fel cynlluniau, daeth Cenhedlaethcoed yn fodd o gyflawni plannu trefol. Golygodd hyn ddarparu cymorth ariannol ac ymarferol.

Cyflwyno cyngor a chymorth anariannol
Roedd cyngor a help ymarferol gan Swyddog Prosiect Cenhedlaethcoed yn cael ei werthfawrogi. Roedd yn agwedd bwysig ar y prosiect arbrofol.

Dilyn ymlaen o'r prosiect arbrofol Cenhedlaethcoed

Diffyg monitro a gwerthuso
Dim ond allborth syml a gafodd ei fonitro yn ystod y prosiect arbrofol. Mae wedi bod yn anodd felly i'r adolygiad hwn weld beth oedd canlyniadau'r prosiect arbrofol a chynlluniau unigol. Rydym wedi clywed sylwadau cyffredinol gan y rheiny dan sylw yn dweud y bu 'buddion addysgol' a'i fod yn 'dod â phobl ynghyd'. Nid ydym yn gwybod faint y mae, neu y bydd, plannu coed a choetiroedd ychwanegol yn annog defnyddio mannau gwyrdd mwy. Ymddengys yn debygol y bydd cynlluniau Cenhedlaethcoed wedi helpu i oresgyn rhwystrau cymdeithasol, i annog cydlyniad cymdeithasol ac yn fuddiol i iechyd a lles, ond ni allwn fod yn siwr.

Cynnal ymchwil ar gyfer yr adolygiad hwn
Yn anffodus, cawsom anhawster cysylltu â'r swyddogion perthnasol yn GWFf ac yn BTCV er mwyn ychwanegu dyfnder ansoddol i'r

adolygiad hwn. Nid yw'r staff a fu'n gysylltiedig â chynlluniau Cenhedlaethcoed yn gysylltiedig mwyach, neu maent wedi gadael y sefydliadau. Cynhaliwyd sgwrs ffôn gyda BTCV ynglŷn â Chenhedlaethcoed. Edrychom ar ddogfennau BTCV am eu cynlluniau Cenhedlaethcoed er mwyn pennu gwybodaeth feintiol. Pennodd trafodaethau ffôn gyda staff yn GWFf, hyd yn oed os oedd data meintiol ar y cynlluniau wedi'i gadw, nad oedd modd i aelodau cyfredol o'r staff gael mynediad iddynt mwyach.

Cyswllt parhaus â chynlluniau cymorth grant
Golygai natur y prosiect arbrofol nad oedd gan Swyddog Prosiect Cenhedlaethcoed na swyddogion yr awdurdodau lleol y cylch gwaith, yr amser na'r adnoddau i barhau â chysylltiad ag unigolion neu grwpiau a fu'n cyfranogi mewn cynlluniau plannu coed. Roedd yr ymgysylltiad cyntaf i gychwyn, yna'r plannu a chyngor, ac, mewn rhai achosion, lansiad. Wedi i'r rhain ddigwydd, roedd derbynyddion y grantiau'n annhebygol o gael unrhyw gyswllt gan swyddogion ac eithrio archwiliad o'r coed bob dwy flynedd.

Un o'r ychydig eithriadau i hyn fu cynllun Central Park yng Nghei Connah. Yma, mae Swyddog Prosiect Cenhedlaethcoed wedi parhau i ymgysylltu â Chyfeillion Central Park. Mae'r grŵp wedi datblygu agweddau pellach ar y cynllun hwn. Mae cymorth parhaus Swyddog Prosiect Cenhedlaethcoed wedi arwain at fwy o bobl yn y gymuned honno yn gwneud mwy o waith plannu coed. Mae hyn wedi helpu i gryfhau cydlyniad cymdeithasol.

Ymddengys bod cysylltiadau parhaus gwael wedi bod rhwng y cymunedau a fu'n rhan o gynlluniau'n cael eu harwain gan BTCV a GWFf a'r sefydliadau hyn. Wedi i'r gwaith plannu cychwynnol gael ei wneud, ac ar ôl gwneud rhywfaint o waith cynnal a chadw, ymddengys bod y cyswllt wedi dod i ben wrth i staff symud ymlaen.

Er na ellir disgwyl i staff aros yn eu swydd am byth, mae cyswllt a pharhad yn bwysig, yn enwedig gyda chynlluniau sy'n delio'n uniongyrchol â chymunedau. Mae'n ddigon anodd sefydlu cysylltiadau â chymunedau yn y lle cyntaf. Mae hyd yn oed yn haws colli'r cysylltiadau hynny a chreu rhwystrau pellach i waith yn y dyfodol pan fydd y cysylltiadau wedi'u colli.

Lle Cenhedlaethcoed yng Nghomisiwn Coedwigaeth Cymru
Mae Atodiad 3 yn rhoi manylion strwythurau mewnol Comisiwn Coedwigaeth Cymru ar gyfer prosiect Cenhedlaethcoed, ac mae'n tynnu sylw at y buddion posibl. Mae'n amlwg bod rhai agweddau wedi gweithio'n dda, a bod agweddau eraill heb weithio'n dda. Mae'n bwysig bod prosiectau tebyg yn y dyfodol yn tynnu ar wersi'r adolygiad hwn o Cenhedlaethcoed, a dylai Comisiwn Coedwigaeth Cymru ddatblygu strwythur mewnol sy'n defnyddio'r agweddau llwyddiannus ar y prosiect.

Casgliadau cyffredinol am y prosiect arbrofol Cenhedlaethcoed

Roedd y rheiny a fu'n ynghlwm wrth brosiect Cenhedlaethcoed o'r farn bod yr ystod cymorth amrywiol a gafodd ei gynnig i ymgeiswyr yn briodol ac yn werthfawr. Yn fwy pwysig, roeddent yn teimlo nad oedd y lefel hon o gymorth ar gael yn unrhyw le arall. Roeddent o'r farn hefyd bod un pwynt cyswllt unigol ar gyfer arbenigedd ar blannu coed trefol yn bwysig eithriadol.

Fe wnaeth Cenhedlaethcoed ddefnyddio partneriaethau i greu rhwydweithiau a pherthynas weithio gyda chyrff statudol a sefydliadau eraill. Roedd hyn yn ddefnyddiol o ran hyrwyddo derbyn a defnyddio coed a choetiroedd mewn amgylcheddau trefol. Ffurfiwyd partneriaethau rhwng grwpiau cymunedol ac eraill, fel BTCV a GWFf, hefyd. Fodd bynnag, yn achos y rhain, roedd yn hytrach yn fodd iddynt gael cyllid ac arbenigedd yn ystod y prosiect Cenhedlaethcoed.

7. Cenhedlaethcoed a chyd-destun polisi LlCC

Mae Tabl 5, isod, yn dangos y ffit da rhwng Cenhedlaethcoed a strategaeth LlCC, Coetiroedd i Gymru. Mae'r themāu, y nodau a'r amcanion yn y tabl wedi'u cymryd o'r fersiwn o'r strategaeth sy'n destun adolygiad ar hyn o bryd. Fe allant newid, fodd bynnag, o ganlyniad i'r adolygiad.

Thema Coetiroedd i Gymru	Nod	Amcan	Cyfraniad gan Cenhedlaethcoed
Coetiroedd i Bobl	Byddwn yn datblygu cyfres o goetiroedd cymunedol ar draws Cymru, gan ddefnyddio coedwigoedd presennol neu'n creu coedwigoedd newydd, gyda phobl leol yn helpu i'w rheoli er budd eu cymunedau.		✔
	Byddwn yn annog plannu coetiroedd fel defnydd interim ar gyfer safleoedd diwydiannol gwag cyn eu hailddatblygu, gan ddarparu defnydd amgylcheddol buddiol a rhywfaint o dirlunio o flaen llaw.		✔
	Byddwn yn hyrwyddo'r defnydd o goetir ar gyfer addysg bellach a dysgu gydol oes.	2.2.2: cynyddu'r defnydd o goetir i'r eithaf ar gyfer dysgu.	✔
	Bydd mecanweithiau'n cael eu creu i bobl leol gael cyfranogi, ac i feithrin consensws ymhlith cymunedau.	2.2.3 cynnig cyfleoedd i gael dweud eu dweud o ran rheolaeth coetiroedd gerllaw eu cartrefi.	✔
	Bydd dealltwriaeth o faterion coetir yng Nghymru yn cael ei hyrwyddo trwy bartneriaethau â chyrff proffesiynol, perchnogion preifat a rheolwyr, grwpiau gwirfoddol a'r sector addysg.		✔

Pwyslais newydd ar reoli coetiroedd	Byddwn yn datblygu ffyrdd o annog defnyddio arfer gorau wrth reoli coetiroedd a ffyrdd o ymestyn cynllunio hirdymor.	2.3.1 hyrwyddo arfer gorau mewn rheoli coetir.	✔
Pwyslais newydd ar reoli coetiroedd	Byddwn yn annog perchnogion tir a rheolwyr i fanteisio ar gyfleoedd i ehangu coetir yn briodol, gan geisio cynyddu gwerth coetiroedd newydd i'r eithaf ar gyfer cymdeithas.	2.3.3: dod o hyd i safleoedd priodol ar gyfer coed a choetiroedd newydd.	✔
	Byddwn yn gweithio gyda grwpiau cymunedol a pherchnogion tir, gan annog defnyddio coed a choetiroedd i wella ansawdd aer a thirweddau trefol.		✔
Amgylchedd amrywiol ac iach	Byddwn yn cynyddu'r arwynebedd coetir brodorol, gan dargedu ehangu a chysylltu coedwigoedd presennol, ac ymgorffori'r cysyniad o gynyddu'r arwynebedd craidd o gynefinoedd coetir brodorol.	2.5.1: Gwarchod a gwella bioamrywiaeth ein coetiroedd.	✔
	Byddwn yn defnyddio coetiroedd i adfer tirweddau ardaloedd y mae hen weithgareddau cloddio mwynau a gweithgareddau diwydiannol eraill wedi effeithio arnynt.	2.5.2: Gwarchod a gwella tirweddau Cymru.	✔
	Byddwn yn ehangu mynediad i goetir, yn enwedig i gymunedau dan anfantais, gan ddefnyddio dyluniad da a chyfranogiad cymunedol, i helpu i oresgyn canfyddiadau rhai pobl o risg wrth ddefnyddio coetir ar gyrion trefol.	2.6.2: Hybu iechyd trwy fynediad i goetiroedd ar gyfer pob cymuned.	✔
	Byddwn yn edrych am gyfleoedd i ddefnyddio coed a choetiroedd mewn lleoliadau trefol er mwyn cynyddu lles emosiynol a chorfforol i'r eithaf.		✔

Tabl 5: Ffit Cenhedlaethcoed gyda Choetiroedd i Gymru

8. Argymhellion

1. Mae prosiect arbrofol Cenhedlaethcoed wedi dangos angen amlwg i gynyddu ymwybyddiaeth a chyfleu buddion man gwyrdd trefol, a buddion coed a choetiroedd yn benodol. Fel corff LlCC sy'n gyfrifol am ystad goetir Cymru, dylai Comisiwn Coedwigaeth Cymru ystyried rhoi rhaglen gyfathrebu felly ar waith gyda sefydliadau preifat, gwirfoddol a chyhoeddus, a'r cyhoedd yn gyffredinol, ar draws Cymru.

2. Roedd y mathau o gymorth yr oedd prosiect arbrofol Cenhedlaethcoed yn eu cynnig yn cael eu gwerthfawrogi, ac nid oeddent ar gael yn unrhyw le arall. Mae angen amlwg i gymorth ariannol a chymorth cynghori fod ar gael i amrywiaeth eang o sefydliadau, grwpiau ac unigolion. Argymhellwn fod Comisiwn Coedwigaeth Cymru a phartneriaid posibl yn ystyried y cyfleoedd a gyflwynir yn sgil yr angen hwn ac yn datblygu gwasanaeth cynghori i'r sector cyhoeddus a'r sector preifat a fyddai'n cyd-fynd â rhaglenni cymorth grant yn y dyfodol.

3. Dangosodd prosiect arbrofol Cenhedlaethcoed gryfderau allweddol yn ei fodel cymorth grant. Argymhellwn fod rhaglenni neu brosiectau cymorth grant yn y dyfodol yn defnyddio'r cryfderau hyn i ddatblygu graddfa symudol o gymorth grant sy'n dibynnu ar y math o gynllun sydd i'w ariannu, ac, efallai'n bwysicach, y math o ymgeisydd.

4. Er ein bod yn cydnabod bod y strategaeth Coetiroedd i Gymru yn destun adolygiad ar hyn o bryd, argymhellwn cynnwys cysylltiadau mwy penodol â buddion materion gwyrdd trefol ar draws yr holl themâu strategol.

5. Er ein bod yn cydnabod y gall hyfforddi a datblygu helpu staff i gaffael sgiliau yn eu swyddi, nid yw'n beth cyffredin i gael aelod o staff Comisiwn Coedwigaeth Cymru sy'n meddu ar yr arbenigedd coedwriaeth ac arbenigedd datblygu cymunedol y mae'n rhaid eu cael ar gyfer rhaglen o fath Cenhedlaethcoed. Argymhellwn, yn y dyfodol, fod swyddogion prosiect yn parhau'n bwynt cyswllt ar gyfer cynlluniau, a'u bod yn meddu ar arbenigedd mewn un maes perthnasol o leiaf. Argymhellwn hefyd fod arbenigwyr eraill yn cael eu defnyddio i gynorthwyo swyddogion prosiect pan fydd angen. Rhoddir manylion cymwyseddau argymelledig staff yn Atodiad 2.

6. Mae partneriaeth yn hanfodol i gyflawni prosiectau fel Cenhedlaethcoed. Argymhellwn fod y dull gweithio mewn partneriaeth yn cael ei gryfhau ymhellach gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru. Argymhellwn hefyd fod y dull gweithio mewn partneriaeth a ddefnyddiwyd yn Cenhedlaethcoed yn cael ei gyfuno â dulliau prosiectau tebyg yn y dyfodol. Gallai dull gweithio fel hwn ddarparu gweithio gwell rhwng sefydliadau. Byddai'n cynyddu cyfleoedd i gymunedau ac unigolion gymryd rhan mewn llywodraethu lleol.

7. Roedd Cenhedlaethcoed, fel prosiect arbrofol, wedi'i gyfyngu i ddwy sir yng ngogledd ddwyrain Cymru. Mae'n amlwg y byddai'r mathau o gymorth a datblygu a gynigiwyd gan y prosiect yn cael eu gwerthfawrogi ar draws Cymru gyfan. Dylid rhoi ystyriaeth o ddifrif i raglen Cymru gyfan i adeiladu ar y cynllun arbrofol. Dylai hwn gynnwys ffocws ychwanegol ar ardaloedd o amddifadedd mawr.

8. Gellid osgoi achosion posibl o wrthdaro buddiannau wrth ddyfarnu grantiau trwy gynnwys cynrychiolaeth o du allan i'r prosiect ar y panel asesu. Awgrymwn y dylai unrhyw brosiect sy'n rhoi grantiau fod â chynrychiolaeth o ddau sefydliad diduedd o leiaf.

9. Roedd diffyg cynllun prosiect, data sylfaenol, dangosyddion, a rhaglen fonitro a gwerthuso ar gyfer prosiect arbrofol Cenhedlaethcoed yn ei gwneud hi'n anodd asesu gwir effaith y prosiect arbrofol. Argymhellwn fod prosiectau yn y dyfodol yn trefnu bod y rhain ar waith cyn iddynt ddechrau.

9. Darllen ymhellach

CABE Space (no date) Is the Grass Greener…? Learning from international innovations in urban green space management. CABE, Llundain

CABE Space (2004) The Value of Public Space. CABE, Llundain

Centre for Urban and Regional Ecology (CURE) 2002, Developing standards for accessible natural greenspace in towns and cities, Adroddiad i CCGC.

CCGC (2006) Providing Accessible Natural Greenspace in Towns and Cities: a practical guide to assessing the resource and implementing local standards for provision in Wales.

Edwards, P. a McPhillimy, D. (2003), Woods in and Around Towns. Adroddiad ar gyfer Scottish National Heritage (F01AA112)

English Nature (2003) Accessible natural green space standards in towns and cities: a review and tool kit for their implementation. Adroddiad 526

Comisiwn Coedwigaeth Cymru (2002) Coetiroedd i Gymru
Comisiwn Coedwigaeth Cymru (dim dyddiad) Cenhedlaethcoed: Menter Coedwigaeth Drefol Cymru

Awdurdod Llundain Fwyaf (2003) Valuing greenness: greenspaces, house prices and Londoners' priorities. GLA Economics

Green Space (2007) The Park Life Report

Kuo, F.E., a Sullivan, W.C., (2001) Environment and Crime in the Inner City, in Environment and Behaviour 33:3, tud 343-367

Lucas, K., Walker, G., Eames, M., Fay, H a Poustie M. (2004) Environment and Social Justice: Rapid Research and Evidence Review. Adroddiad ar gyfer y Rhwydwaith Ymchwil Datblygu Cynaliadwy www.sd_research.org

O'Brien, E., (2006) Social Housing and Green Space: a case study in inner city London, in Forestry tud1-17

Rishbeth, C., (2002) The Landscape of the Global Village, in Landscape Design, 310, tud 27-31

LlCC (2007) Cymru'n Un, LlCC Caerdydd

LlCC, 2005 Dyfodol Teg i'n Plant

LlCC, 2005, Dringo'n Uwch: chwaraeon a gweithgareddau hamdden egnïol

LlCC, 2005, Cynllun Oes, gwasanaeth iechyd o'r radd flaenaf i Gymru

LlCC, 2006, Dechrau byw'n wahanol: Cynllun datblygu cynaliadwy Cynulliad Cenedlaethol Cymru (diweddarwyd 2006)

LlCC (2006) Strategaeth Amgylcheddol Cymru

LlCC (2006) Cynllun Gweithredu Strategaeth Amgylcheddol Cymru

LlCC, dyddiad yn anhysbys, date unknown, Creu Lleoedd Cynaliadwy (Awdurdod Datblygu Cymru)

Mynediad i ddogfennau LlCC 7 Awst 2007:

http://new.wales.gov.uk/about/strategy/strategypublications/?lang=en

Cyngor Dosbarth Swydd Warwick (2003), The Benefits of Urban Trees, Warwick

Atodiad 1 – Cynlluniau Cenhedlaethcoed

Enw'r Prosiect/Disgrifiad	Swm cyllid Comisiwn Coedwigaeth Cymru/partneriaid eraill/cyfan-swm gwerth cynllun	Allbwth a Chanlyniadau
MANNAU CYMUNEDOL		
Afon Gwenfro, Parc Caia, Wrecsam Darparu cymorth ariannol i BTCV tuag at gostau plannu a gweithredu cynllun plannu ar hyd coridor glan afon i wella bioamrywiaeth a gwerth amwynder man gwyrdd trefol mewn ardal breswyl Cymunedau yn Gyntaf yn Wrecsam.	£3,190 BTCV, Grŵp Amgylcheddol Parc Caia, CBSW £8,200	• 36 o goed brodorol wedi'u plannu • Cyfranogiad pobl ifanc a grwpiau ieuenctid mewn gweithgareddau plannu • Adfywio man gwyrdd anniben a segur ar ystad dai mewn ardal Cymunedau yn Gyntaf • Gwella cynefin coridor yr afon • 250 o bobl leol yn cyfranogi mewn gweithgareddau plannu • Cyfranogiad tîm troseddau ieuenctid
Central Park, Cei Connah, Sir y Fflint Darparu cymorth ymarferol uniongyrchol a chymorth ariannol i Grŵp Bywyd Gwyllt Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWW) i gynllunio, gweithredu a sefydlu cynllun plannu ar y man gwyrdd trefol mwyaf yn anheddiad trefol mwyaf Sir y Fflint. Rhoddwyd cymorth parhaus i NEWW, grŵp cymunedol, Cyngor Tref Cei Connah a CSFf i barhau i wella'r safle.	£13,665 Grŵp Bywyd Gwyllt Gogledd Ddwyrain Cymru, Cyngor Tref Cei Connah, Ysgol Uwchradd Cei Connah, Airbus £20,500	• 1000 o goed brodorol wedi'u plannu. • 20 o goed anfrodorol wedi'u plannu. • Adfywio man gwyrdd anniben ar ystad dai yn yr anheddiad mwyaf yn y sir • 500 o bobl leol yn cyfranogi yn y prosiect • Cyfranogiad tîm troseddau ieuenctid • Cyfranogiad plant ysgol sydd wedi'u gwahardd • Cynnydd sylweddol yng ngwerth bioamrywiaeth man gwyrdd • Gwelliant yng ngwerth amwynder man gwyrdd • Darparu cysgod a lloches ar safle a oedd yn agored yn flaenorol • Creu grŵp 'Cyfeillion' • Catalydd gwelliannau pellach i'r man gwyrdd
Ardal Chwarae Sant Matthew, Bwcle, Sir y Fflint Darparu cymorth ymarferol a chymorth ariannol i Adran Gwasanaethau Hamdden CSFf mewn partneriaeth â BTCV ar gyfer cynllun plannu ar ystâd breswyl drefol, er mwyn gwella gwerth amwynder ac i sgrinio cyfarpar chwarae a sŵn o dai o amgylch.	£1,440 BTCV, CSFf £2,565	• 30 o goed brodorol/anfrodorol safonol • Sgrinio cyfarpar chwarae o'r tai o amgylch • Cyfranogiad cymunedol mewn gweithgareddau plannu • Gwerth bioamrywiaeth gwell • Gwerth amwynder gwell

Nomads Cei Connah Sir y Fflint Darparu cymorth ariannol i GWFf ar gyfer plannu coed brodorol o amgylch ffin clwb pêl-droed trefol er mwyn gwella gwerth gweledol ac i sgrinio safleoedd diwydiannol o amgylch.	£5,200 GWFf, Nomads Cei Connah £8,000	• 1000 o goed brodorol wedi'u plannu • Yr ardal ddiwydiannol o amgylch y safle wedi'i sgrinio i greu gwerth amwynder gwell • Gwerth bioamrywiaeth gwell • Cyfleoedd addysg amgylcheddol i blant lleol
YSGOLION		
Ysgol Morgan Llwyd, Parc Caia, Wrecsam Darparu cymorth ymarferol uniongyrchol i'r ysgol, a chymorth ariannol i GWFf i blannu, gweithredu a chynnal cynllun plannu'r ysgol i greu ardal addysgu yn yr awyr agored a darparu cysgod i ddisgyblion.	£6,078 GWFf £6,078	• 2000 o goed brodorol wedi'u plannu • 500 o goed anfrodorol wedi'u plannu • Gwerth amwynder gwell • Buddion addysg amgylcheddol • Cyfranogiad plant sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol mewn gweithgareddau plannu • Darparu cysgod ar dir yr ysgol • Gwerth bioamrywiaeth gwell
Ysgol Maes Glas, Maes Glas, Sir y Fflint Darparu cymorth ymarferol uniongyrchol a chymorth ariannol ar gyfer cynllun plannu ar ffiniau tir yr ysgol. Manyleb ar gyfer dewis rhywogaethau a manyleb blannu a chynnal a chadw wedi'u llunio.	£1,665 Gwasanaeth au Coed Gogledd Cymru, Cenhedlaethcoed £1,665	• 100 o goed brodorol/anfrodorol/addurniadol safonol wedi'u plannu • Gwerth amwynder gwell • Darparu llocher hirdymor i'r safle agored • Adfywio amgylcheddol mewn ardal ystad breswyl sydd wedi dirywio
Ysgol Uwchradd Cei Connah, Sir y Fflint Darparu cymorth ymarferol uniongyrchol a chymorth ariannol ar gyfer cynllun plannu ar dir yr ysgol. Cynllun plannu, manyleb dewis rhywogaethau a manyleb plannu a chynnal a chadw wedi'u llunio. Hwyluso diwrnodau plannu gyda'r disgyblion.	£1,095 Crimebeat, Ysgol Uwchradd Cei Connah, Airbus £4,595	• 500 o goed brodorol wedi'u plannu • 350 o ddisgyblion wedi cyfranogi mewn plannu coed, gan gynnwys disgyblion sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol • Ardal ddiffaith, segur o'r ysgol wedi'i gwella • Daprau cyfleoedd addysg amgylcheddol yn y dyfodol • Mwy o fioamrywiaeth mewn lleoliad trefol • Darparu cysgod ar dir yr ysgol • Gwerth addysgol gwell a gwerth amwynder gwell i dir yr ysgol

Atodiad 1 – Cynlluniau Cenhedlaethcoed

Ysgol Santes Gwenffrewi, Treffynnon, Sir y Fflint Darparu cymorth ariannol i GWFf i blannu, gweithredu a chynnal a chadw cynllun plannu yn yr ysgol er mwyn creu ardal addysgu awyr agored a darparu cysgod i ddisgyblion.	£2,840 Honda, CCGC, LICC, Y Gymdeithas Catref Ysgol £5,600	• 90 o goed brodorol/anfrodorol safonol wedi'u plannu • Rhan o gynllun adfywio 3 blynedd • Plannu coetir newydd mewn lleoliad trefol • Gwerth amwynder gwell • Gwerth bioamrywiaeth gwell • Disgyblion yn cyfranogi mewn gweithgareddau plannu
Ysgol Uwchradd Penarlâg, Sir y Fflint Darparu cymorth ymarferol uniongyrchol a chymorth ariannol ar gyfer cynllun plannu ar ffiniau tir yr ysgol. Manyleb ar gyfer dewis rhywogaethau a manyleb blannu a chynnal a chadw wedi'u llunio. Hwyluso diwrnodau plannu gyda'r disgyblion.	£2,300	• 500 o goed brodorol wedi'u plannu • 30 o goed brodorol ac anfrodorol safonol trwm wedi'u plannu • 200 o ddisgyblion yn cyfranogi mewn gweithgareddau plannu • Cyfranogiad disgyblion sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol • Gwerth amwynder gwell • Gwerth bioamrywiaeth gwell
Ysgol Gynradd Sirol Southdown, Bwcle, Sir y Fflint Darparu cymorth ymarferol uniongyrchol a chymorth ariannol ar gyfer cynllun plannu coed ar dir yr ysgol er mwyn daprau cynefin bioamrywiaeth ychwanegol, i wella cyfleoedd dysgu awyr agored a darparu cysgod i ddisgyblion.	£550	• 14 o goed brodorol safonol wedi'u plannu • Y disgyblion i gyd yn cyfranogi mewn gweithgareddau plannu • Darparu cysgod ar dir yr ysgol • Gwerth bioamrywiaeth gwell
Ysgol Fabanod Parc Borras, Wrecsam Darparu cymorth ymarferol uniongyrchol i'r ysgol a chymorth ariannol i GWFf i blannu, gweithredu a chynnal a chadw cynllun plannu yn yr ysgol er mwyn creu ardal addysgu awyr agored sy'n gysylltiedig â'r fenter Ysgol Goedwig, a darparu cysgod i ddisgyblion.	£5,305 GWFf £6,655	• 2000 o goed brodorol wedi'u plannu • 22 o goed brodorol/anfrodorol safonol wedi'u plannu • Gwerth bioamrywiaeth gwell i'r safle • Darparu cysgod ar dir yr ysgol • Buddion addysg amgylcheddol yn sgil plannu a'r defnydd o'r safle yn y dyfodol • Cyswllt cryfach â'r rhaglen Ysgol Goedwig

St. Christopher, Canolfan Eco'r Mileniwm, Borras, Wrecsam Darparu cymorth ymarferol uniongyrchol a chymorth ariannol tuag at gostau plannu a sefydlu coed er mwyn creu ardal addysgu awyr agored a darparu cysgod i ddisgyblion.	£812 GWFf, Ymddiriedolaeth Amgylcheddol Onyx £1,500	• 500 o goed brodorol wedi'u plannu ar hen safle chwarel gerllaw'r ysgol ac ar dir yr ysgol • Disgyblion ag anghenion arbennig yn cyfranogi mewn gweithgareddau plannu • Gwerth bioamrywiaeth gwell i'r safle • Darparu cysgod ar dir yr ysgol
Ysgol Clawdd Wat, Wrecsam Darparu cymorth ariannol i GWFf tuag at gostau plannu coed ar dir yr ysgol i ddarparu cyfleoedd dysgu awyr agored a chysgod i ddisgyblion.	£3,200 GWFf, Cymdeithas Rhieni ac Athrawon £4,300	• 750 o goed brodorol wedi'u plannu • 28 o goed anfrodorol safonol wedi'u plannu • Darparu cysgod ar dir yr ysgol • Gwerth bioamrywiaeth gwell mewn lleoliad trefol • Buddion addysgol yn gysylltiedig â diwrnodau plannu yn yr ysgol
SAFLEOEDD BUSNES		
RAM Leisure, Ystad Ddiwydiannol Whitegate, Wrecsam Darparu cymorth ymarferol uniongyrchol a chymorth ariannol i fusnesau bach mewn ardal Cymunedau yn Gyntaf tuag at gostau paratoi'r tir, plannu coed a'u sefydlu fel rhan o gynllun gwelliant amgylcheddol ehangach.	£1,260 RAM Leisure, Gofal coed arbenigol £3,300	• 10 o goed anfrodorol safonol trwm planhigfa wedi'u plannu mewn cynllun ffurfiol • Delwedd busnes gwell • Gwerth amwynder gwell i'r safle ar gyfer staff
Cytec Engineered Materials Ltd, Ystad Ddiwydiannol Wrecsam Darparu cymorth ariannol i GWFf tuag at gostau paratoi'r tir, plannu coed ac fel rhan o gynllun gwelliant amgylcheddol ffisegol ehangach ar safle busnes.	£12,500 GWFf £12,500	• 200 o goed safonol anfrodorol ysgafn wedi'u plannu mewn cynllun ffurfiol • Gwerth esthetig y safle wedi'i wella'n fawr • Cynllun plannu patrymol mewn ardal ddiwydiannol iawn
Pann Krisp Ltd, Ystad Ddiwydiannol Wrecsam Darparu cymorth ariannol i GWFf tuag at gostau plannu coed fel rhan o gynllun gwelliant amgylcheddol ffisegol ehangach ar safle busnes.	£6,727 GWFf, WDA (cyfanswm gwerth yn anhysbys)	• Gwerth esthetig y safle wedi'i wella'n fawr • Delwedd busnes gwell

Tetrapak, Ystad Ddiwydiannol Wrecsam Darparu cymorth ariannol i GWFf tuag at gostau plannu coed fel rhan o gynllun gwelliant amgylcheddol ehangach ar safle busnes.	£3,760 GWFf £3,760	• Gwerth amwynder gwell of site for staff • Gwerth bioamrywiaeth gwell i'r safle • Integreiddio'r safle'n well yn yr ardal wledig o amgylch
SAFLE ADFER TIR DIWYDIANNOL		
Gwaith Dur Brymbo Hwyluso plannu dan y Cynllun Grant Coetir a chais am gynllun plannu a rheoli coetir brodorol 26 hectar gerllaw'r datblygiad newydd ar hen safle'r gwaith dur.	£36,000 Ystadau Parkhill £48,000	• 45000 o goed brodorol wedi'u plannu • Rhan o'r hen domen slag ddiwydiannol wedi'u hadfer yn goetir brodorol • Cyfleoedd hamdden gwell • Gwell cynefin bioamrywiaeth • Gwerth tirwedd gwell
CANOL TREF		
Tower Gardens, Treffynnon, Sir y Fflint Darparu cymorth ariannol ac ymarferol uniongyrchol i swyddog adfywio canol tref CSFf ar fanylebau plannu, ymgynghori cymunedol a thechnegau cynnal a chadw a sefydlu mewn ardal a arferai ddioddef fandaliaeth. Coed safonol Sorbus (criafol) wedi'u fandaleiddio, wedi'u disodli â 6 choeden safonol lled-aeddfed Pyrus calleryana 'Sianticlîr' (pren gellyg addurniadol).	CSFf £11,670	• 6 o goed addurniadol anfrodorol lled-aeddfed wedi'u plannu • Cynllun a fandaleiddiwyd wedi'i ddisodli a'i ffurfioli • Delwedd well i ganol y dref • Cyfranogiad y gymuned leol yn y cynllun plannu a chynnal a chadw

CORIDORAU TRAFNIDIAETH		
Ymddiriedolaeth Iechyd Gogledd Ddwyrain Cymru, Wrecsam Darparu cymorth ariannol ac ymarferol uniongyrchol i leddfu problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn ardal â llystyfiant mawr gerllaw'r A5152 yng nghanol tref Wrecsam. Tynnu clawdd llawryf a phlannu 8 coeden safonol Zelkova lled-aeddfed yn ei le.	£1,100 Ymddiriedolaeth Iechyd Gogledd Ddwyrain Cymru £4,100	• 8 o goed safonol anfrodorol lled-aeddfed wedi'u plannu • Lleddfu ymddygiad gwrthgymdeithasol • Gwerth amwynder gwell
Oak Avenue, Holt, Wrecsam Darparu cymorth ariannol tuag at blannu a chynnal 56 o goed safonau planhigfa Quercus robur (derwen goesynnog) i ffurfio rhodfa ffurfiol ar hyd ffordd ddynesu'r B5102 tuag at bentref Holt.	£820 Brodyr Bellis £1,640	• 56 o goed brodorol safonol wedi'u plannu • Gwerth bioamrywiaeth gwell i'r coridor trafnidiaeth • Tirwedd well • Delwedd well i'r pentref
CYNGOR / HWYLUSO		
Neuadd Dref y Fflint, Sir y Fflint Darparu cymorth ymarferol (cyngor a manylebau) i Adran Briffyrdd Sir y Fflint i liniaru problemau hirsefydlog sy'n gysylltiedig â phyllau coed dirlawn. Disodli 4 coeden farw/wedi'u difrodi gerllaw neuadd y dref.	Adran Priffyrdd CSFf	• 4 o goed safonol anfrodorol lled-aeddfed wedi'u plannu • Y broblem hirsefydlog a achoswyd gan fanylebau blaenorol gwael wedi'i datrys • Adfywio lleoliad canol y dref.
Prosiect adfywio Castle Park, Y Fflint Darparu cymorth ymarferol (cyngor) i adran Adfywio CSFf mewn perthynas â thechnegau cyfranogiad cymunedol a dewis rhywogaethau ar gyfer cynllun plannu coed arfaethedig ar y stryd mewn ardal Cymunedau yn Gyntaf.	Adran Adfywio CSFf	Diweddglo a ddisgwylir: • Cyfranogiad trigolion lleol mewn cynllun gwelliant amgylcheddol ffisegol • Gwerth gweledol gwell a gwerth amwynder gwell i'r ardal Cymunedau yn Gyntaf

Ysgol Gynradd Rhosddu, Wrecsam Darparu cymorth ymarferol (cyngor) i'r ysgol ar ddewis rhywogaethau a manylebau sefydlu a chynnal a chadw ar gyfer cynllun plannu arfaethedig ar dir yr ysgol er mwyn creu cynefin bioamrywiaeth ac ardal addysgu awyr agored. Manyleb ar ddewis rhywogaethau a phyllau/gardiau plannu ar gyfer cynllun plannu arfaethedig ar iard goncrid yr ysgol i ddarparu cysgod i ddisgyblion.		• Darparu cysgod i ddisgyblion • Gwerth amwynder gwell i'r iard chwarae • Gwerth bioamrywiaeth mwy i'r caeau chwarae • Delwedd well i'r ysgol
Areton International Plastics, Ystad Ddiwydiannol Wrecsam Darparu cymorth ariannol i'r busnes ar sgrinio adeiladau diwydiannol oddi wrth dai cyfagos, gan gynnwys rhestr rhywogaethau addas a manylebau plannu.		• Safle diwydiannol wedi'i sgrinio oddi wrth y tai preswyl • Gwerth bioamrywiaeth gwell
Ysgol Gynradd Mountain Lane, Bwcle, Sir y Fflint Darparu cymorth ymarferol (cyngor) i'r ysgol ar ddewis rhywogaethau a manylebau sefydlu a chynnal a chadw ar gyfer cynllun plannu arfaethedig ar dir yr ysgol er mwyn creu cynefin bioamrywiaeth ac ardal addysgu awyr agored.		• Gwerth bioamrywiaeth gwell i dir yr ysgol • Gwell cyfleoedd dysgu yn yr awyr agored
Ysgol Gynradd Sant Etherworld, Shotton Uchaf, Sir y Fflint Darparu cymorth ymarferol (cyngor) ar ddewis rhywogaethau ar gyfer cynllun plannu ffurfiol ac anffurfiol arfaethedig ar dir yr ysgol, gan gynnwys cynllun plannu manwl a manylebau sefydlu a chynnal a chadw.		• Darparu cysgod i ddisgyblion • Gwerth bioamrywiaeth gwell i'r safle

Cymwyseddau hanfodol staff ar gyfer Cenhedlaethcoed	Argymhelliad ar gyfer mentrau tebyg yn y dyfodol
Gwybodaeth benodol am goedwriaeth	Dylai staff fod yn gallu cysylltu ag arbenigwyr yng Nghomisiwn Coedwigaeth Cymru i gael y wybodaeth hon.
Rheoli prosiect	Dylai staff feddu ar sgiliau sylfaenol rheoli prosiect, ond dylent fod yn gallu gofyn am gyngor arbenigol yng Nghomisiwn Coedwigaeth Cymru.
Dealltwriaeth o gyllid ariannol	Mae'n ofynnol cael dealltwriaeth sylfaenol; dylai swyddogion allu gofyn am gyngor arbenigol gan aeloda staff eraill yng Nghomisiwn Coedwigaeth Cymru.
Chwaraewyr tîm	Mae hyn yn hanfodol o fewn y tîm cyflawni ac yng nghyd-destun ehangach Comisiwn Coedwigaeth Cymru.
Gallu gweithio ar eich pen eich hun	Hanfodol
Deall gweithdrefnau a phrotocol Comisiwn Coedwigaeth Cymru	Deall gweithdrefnau a phrotocol Comisiwn Coedwigaeth Cymru Hanfodol er mwyn integreiddio cyflawni'n llawn gyda mentrau ac adrannau eraill Comisiwn Coedwigaeth Cymru.
Gallu i gyfathrebu'n effeithiol ar draws y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol	Hanfodol
Sgiliau gweinyddu	Ni ddylai staff y prosiect wneud y rhan helaeth o waith gweinyddu'r prosiect. Dylid darparu cymorth pwrpasol.
Sgiliau cyfryngau (gan gynnwys y wasg a datblygu gwefan)	Ni ddylai swyddogion y prosiect wneud gwaith datblygu'r wefan/darparu cynnwys i'r wefan na chyfathrebu gyda'r wasg. Dylid llwybro pob cyfathrebu o'r math hwn trwy dîm Cyfathrebu Comisiwn Coedwigaeth Cymru neu staff cymorth pwrpasol.
Gallu i fod yn hyblyg a chreadigol	Mae'r gallu i fod yn hyblyg ac i addasu i sefyllfaoedd lleol yn allweddol i lwyddiant Cenhedlaethcoed.
Ymwybyddiaeth o wleidyddiaeth a pholisïau lleol a chenedlaethol	Mae'n bwysig bod prosiectau'n cydweddu â dyheadau cymunedol a'r agenda gwleidyddol lleol a chenedlaethol.
Sgiliau hwyluso a chyfryngu, a datrys anghydfodau.	Dylid cydnabod y bydd rhywfaint o wrthdaro bob amser wrth weithio gyda chymunedau a/neu sefydliadau eraill. Mae'r gallu i ymdopi â'r sefyllfaoedd hyn, a'u tawelu, yn allweddol.
Cynllunio a blaenoriaethu gwaith	Hanfodol
Deall materion amrywiaeth	Hanfodol

Atodiad 3 – Trefniadau strwythurol mewnol Comisiwn Coedwigaeth Cymru

Agwedd strwythurol	Cenhedlaethcoed	Senario argymelledig yn y dyfodol	Buddion
Sefyllfa mewn perthynas â Chomisiwn Coedwigaeth Cymru	Wedi'i wreiddio yn yr Adran Grantiau a Thrwyddedau	Wedi'i wreiddio	Mae gwreiddio prosiectau a rhaglenni o fewn y rhiant sefydliad yn gwella'r ymdeimlad o berthyn a theyrngarwch a ddatblygir gan staff. Mae'n helpu i feithrin cysylltiadau rhwng y rhiant sefydliad a'r rheiny y gall y prosiect fod yn gweithio â nhw.
Canolfan y swyddog	Yng Nghomisiwn Coedwigaeth Cymru ac mewn swyddfeydd partner	Yng Nghomisiwn Coedwigaeth Cymru ac mewn swyddfeydd partner	Mae staff sy'n gweithio yn swyddfeydd y rhiant sefydliad yn fwy tebygol o ddatblygu rhwydweithiau a gwybodaeth yn gyflym. Gall staff sy'n gweithio ar eu pennau'u hunain deimlo wedi'u hynysu oddi wrth y sefydliad a chydweithwyr yn aml.
Cymorth trefniadol	Dim	Cymorth gweinyddu, cyfathrebu a'r cyfryngau	Mae cymorth effeithiol mewn perthynas â gweinyddu, cyfathrebu a'r cyfryngau yn gofyn am setiau sgiliau penodol ac arbenigedd. Maent yn agweddau ar waith prosiect sy'n mynd â llawer o amser, ond yn agweddau sy'n hanfodol i lwyddo. Dylai'r rhiant sefydliad ddarparu cymorth yn y meysydd hyn.
Llwyth gwaith y swyddog	20 prosiect ynghyd â chymorth cynghori 2004-2008	Cyfartaledd o 20 prosiect fesul swyddog	Mae nifer resymol o brosiectau neu gynlluniau i'w datblygu a'u cynnal a'u cadw yn caniatáu staff i roi digon o amser a chymorth i'r prosiectau hynny a all fod ei angen. Mae nifer y cynlluniau fesul swyddog yn dibynnu hefyd ar ledaeniad daearyddol y prosiect cyfan.
Ariannu	Mewnol ynghyd â chyllid partner	Cyllid mewnol craidd ynghyd â chyllid allanol neu gyllid partneriaeth lle bo'n briodol	Byddai cyllid mewnol craidd, gyda chyllid allanol i ychwanegu ato lle bo'n gymwys, yn darparu ar gyfer dull hyblyg o weithio ac yn dileu'r orfodaeth i wario'n unol â therfynau amser allanol penodol.
Statws cyflogaeth	Penodiad cyfnod penodedig	Amser llawn parhaol	Mae hyn yn gysylltiedig â morâl staff, eu hymdeimlad o berthyn a'u teyrngarwch i'r sefydliad. Mae hefyd yn darparu parhad pwynt cyswllt unigol a'r gallu i adeiladu rhwydwaith cryf o berthnasoedd yn fewnol ac yn allanol i'r rhiant sefydliad.

Rheoli prosiect	Grŵp llywio a'r swyddog prosiect	Grŵp llywio a swyddogion prosiect	Mae bob amser yn fuddiol i brosiectau gael eu goruchwylio gan Grŵp Llywio sy'n cynnwys cynrychiolaeth o randdeiliaid eraill. Mae'n darparu ar gyfer tryloywder a sicrwydd y bydd prosiectau'n parhau i fodloni nodau ac amcanion.
Asesu cynigion am grant	Grŵp llywio	Panel sy'n cynnwys unigolion o'r tu allan i'r prosiect, ynghyd â chynrychiolaeth o du mewn i'r prosiect	Mae bob amser yn fuddiol i geisiadau am grant gael eu hasesu gan banel sy'n cynnwys cynrychiolaeth o randdeiliaid y tu allan i'r prosiect. Mae'n darparu ar gyfer tryloywder a sicrwydd bod prosiectau a chynlluniau yn briodol.
Dyrannu grantiau	Uchafswm o 75% i grwpiau cymunedol, busnesau, awdurdodau lleol a sefydliadau eraill	Graddfa symudol o arian cyfatebol. Lefel cyllid yn cael ei phennu gan strwythur y sefydliad sy'n gwneud cais.	Rydym yn cydnabod bod darparu 100% o gyllid grant yn anarferol ac yn annhebygol o fod ar gael yn y dyfodol. Gellid darparu'r ganran uchaf sydd ar gael ar gyfer cymunedau a grwpiau tebyg, a gallai fod angen graddfa symudol o arian cyfatebol ar gyfer sefydliadau mwy sefydledig neu sefydliadau statudol.
Monitro prosiectau	Wedi'i gyfyngu i archwiliadau gweledol bob dwy flynedd o'r planhigion. Dim rhagofyniad i gynlluniau fonitro allborth neu ganlyniadau	Rhaglen barhaus o fonitro a gwerthuso, gan gynnwys sefydlu data sylfaenol a dangosyddion perthnasol	Mae sefydlu data sylfaenol, datblygu dangosyddion a rhaglen barhaus o fonitro a gwerthuso yn galluogi dangos effeithiolrwydd prosiectau dros amser. Bydd monitro meintiol yn pennu'r allborth, a bydd ymagwedd fwy ansoddol yn dangos effeithiau'r allborth hwnnw. Mae casglu data sylfaenol yn helpu i ddangos newid ac effaith dros amser, yn gymwys i brosiectau penodol.

Rhestr Wirio Cynllun y Swyddog Prosiect

Lluniwyd y rhestr wirio ganlynol er mwyn asesu gallu prosiect i gymhwyso ar gyfer cyllid Cyfnod 1 Cenhedlaethcoed. Y prosiectau hynny sy'n ticio pob blwch neu'r rhan fwyaf o'r blychau fydd y rhai mwyaf tebygol o lwyddo i sicrhau cyllid.

Enw'r safle / prosiect: …….. Sir: ……...

1. Trefol ☐ Ymyl trefol ☐

(Pwyntiau……)

2. Dim gwrthdaro buddiannau

Gwasanaethau ☐ Cynllunio ☐ Bioamrywiaeth ☐ Archaeoleg ☐

(Pwyntiau……)

3. Wedi cael caniatâd perchennog tir ☐

(Pwyntiau……)

4. Mynediad Cyhoeddus

Llawn ☐ Rhannol ☐ Gweledol ☐ Arall ☐

(Pwyntiau……)

Benefits

Environmental ☐ social ☐ Economic ☐ Arall ☐

(Pwyntiau……)

5. Arian cyfatebol ar gael

Arian ☐ Mewn Nwyddau ☐ Arall ☐

(Pwyntiau……)

6. Cyfranogiad y Gymuned Leol

Ymgynghori ☐ Cyflawni ☐ Cynnal a chadw ☐

(Pwyntiau……)

7. Darpariaethau ar gyfer cynnal a chadw

Tymor byr (Blynyddoedd 1-5) ☐ Hirdymor (Blwyddyn 5+) ☐

(Pwyntiau……)

Cyfanswm = …….. o bwyntiau

Sylwadau ychwanegol

……

……

……

Atodiad 4 – Ffurflenni Cais Cenhedlaethcoed

Cynllun sy'n Ymateb i Fusnes

Dyddiad: ……. Cyswllt…….

Enw'r safle / prosiect: …….. Sir: ……...

8. Lleoliad daearyddol

Trefol ☐ Ymyl trefol ☐

(Pwyntiau……)

9. Lleoliad strategol y cynllun arfaethedig

Porth ☐ Amlwg ☐ Arall ☐

10. Arwynebedd sy'n cael ei wella gan y cynllun arfaethedig

< 0.25ha ☐ 0.25 – 1ha ☐ >1ha ☐

11. Cytundeb cynnal a chadw

Ysgrifenedig ☐ Llafar ☐

(Pwyntiau……)

12. Mynediad

Llawn - cyflogai ☐ Gweledol - cyflogai ☐ Gweledol - cyhoeddus ☐

(Pwyntiau……)

Buddion

Amgylcheddol ☐ Cymdeithasol ☐ Economaidd ☐ Arall ☐

(Pwyntiau……)

13.Cyfranogiad cyflogeion

Ymgynghori ☐ Cyflawni ☐ Cynnal a chadw ☐

(Pwyntiau……)

14.Arian cyfatebol wedi'i sicrhau

Arian ☐ Mewn Nwyddau ☐ Arall ☐

Manylion……

(Pwyntiau……)

Cyfanswm Sgôr = …….. o bwyntiau

Gwybodaeth ychwanegol sy'n berthnasol i'r cais

……

……

……

……

Atodiad 4 – Ffurflenni Cais Cenhedlaethcoed

Rhestr wirio
- Sgorau pwyntiau

Isod rhoddir y 'sgoriau' pwyntiau i bob un o'r atebion sydd ar gael ar ffurflen Rhestr Wirio Prosiect Cenhedlaethcoed. Mae rhai ohonynt wedi'u pwysoli i adlewyrchu'u pwysigrwydd o ran helpu i fodloni amcanion cyfnod 1 Cenhedlaethcoed.

Lleoliad daearyddol	
Trefol	2
Ymyl trefol	1
Lleoliad strategol	
Porth	10
Amlwg	6
Arall	0
Arwynebedd wedi'i wella	
<0.25ha	0
0.25 – 1ha	3
>1ha	6
Cytundeb cynnal a chadw	
Ysgrifenedig	3
Llafar	1

Mynediad	
Llawn - cyflogai	5
Gweledol - cyflogai	3
Gweledol - cyhoeddus	3
6. Buddion	
Amgylcheddol	1
Cymdeithasol	1
Economaidd	1
Arall	1
7. Cyfranogiad cyflogeion	
2 bwynt am bob un	
8. Arian Cyfatebol	
Arian Parod	2
Mewn Nwyddau	1
Arall	1

Atodiad 4 – Ffurflenni Cais Cenhedlaethcoed

Cynlluniau sy'n Ymateb i'r Gymuned

Rhestr Wirio

Lluniwyd y rhestr wirio ganlynol er mwyn asesu addasrwydd prosiect ar gyfer cyllid Cyfnod 1 Cenhedlaethcoed. Y prosiectau hynny sydd ã'r nifer fwyaf o bwyntiau fydd y rhai mwyaf tebygol o lwyddo i sicrhau cyllid.

Enw'r safle / prosiect: ..... Sir: .....

15. Trefol ☐ Ymyl trefol ☐

(Pwyntiau.....)

16. Dim gwrthdaro buddiannau

Gwasanaethau ☐ Cynllunio ☐ Bioamrywiaeth ☐ Archaeoleg ☐

(Pwyntiau.....)

17. Wedi cael caniatâd perchennog tir ☐

(Pwyntiau.....)

18. Rheolwr tir / cynnal a chadw'r tir – derbyn y cynnig

Ysgrifenedig ☐ Llafar ☐

19. Mynediad Cyhoeddus

Llawn ☐ Rhannol ☐ Gweledol ☐ Arall ☐

(Pwyntiau.....)

Buddion

Amgylcheddol ☐ Cymdeithasol ☐ Economaidd ☐ Arall ☐

(Pwyntiau……)

20. Arian cyfatebol ar gael

Arian ☐ Mewn Nwyddau ☐ Arall ☐

(Pwyntiau……)

21. Cyfranogiad y gymuned leol

Ymgynghori ☐ Cyflawni ☐ Cynnal a chadw ☐

(Pwyntiau……)

22. Darpariaethau ar gyfer cynnal a chadw

Tymor byr (Blynyddoedd 1-5) ☐ Hirdymor (Blynyddoedd 5+) ☐

Manylion

……

……

……

(Pwyntiau……)
Cyfanswm sgôr = …….. o bwyntiau

Atodiad 4 – Ffurflenni Cais Cenhedlaethcoed

Sylwadau ychwanegol

Rhestr wirio
- Sgoriau pwyntiau

Isod rhoddir y 'sgoriau' pwyntiau a briodolwyd i bob un o'r atebion sydd ar gael ar ffurflen Rhestr Wirio Prosiect Cenhedlaethcoed. Mae rhai ohonynt wedi'u pwysoli i adlewyrchu'u pwysigrwydd o ran cynaladwyedd.

Lleoliad	
Trefol	2
Ymyl trefol	1
Gwiriadau gwasanaeth	
1 am bob un	
Caniatâd y perchennog tir	
1 pwynt	
Rheolwr tir / cynnal a chadw'r tir – derbyn y cynnig	
Ysgrifenedig	3
Llafar	1
Mynediad	
Llawn	2
Rhannol	1
Gweledol	1
Arall	1

6. Buddion	
Amgylcheddol	1
Cymdeithasol	1
Economaidd	1
Arall	1
Arian Cyfatebol	
Arian	2
Mewn Nwyddau	1
Arall	1
Cyfranogiad y gymuned	
2 bwynt am bob un	
Cynnal a chadw	
Tymor byr	2
Hirdymor	4

Atodiad 5 – Cytundeb Cynnal a Chadw Cenhedlaethcoed

Cytundeb Cynnal a Chadw

Ar ran……,cytunaf i wneud y gwaith cynnal a chadw ar gynllun plannu coed Cynhyrchu Coed yn

……

hyd at o leiaf y fanyleb a hyd gofynnol a nodir ar y Daflen Manyleb Cynnal a Chadw Cynhyrchu Coed.

Llofnodwyd:

Printiwch eich Enw:

Sefydliad:

Dyddiad:

Atodiad 6 – Cytundeb Partneriaeth Cenhedlaethcoed

Cytundeb Partneriaeth (Sampl)

(Rhowch enw'r sefydliad neu'r grŵp)

Cytundeb Partneriaeth y Comisiwn Coedwigaeth
(Rhowch enw'r safle/cynllun)

Cyflwyniad
(Rhowch ddisgrifiad byr o'r safle a chefndir y cynllun)

Y Cynigydd

Fe gynigir a chyflwynir y bartneriaeth gan (nodwch enw eich sefydliad neu grŵp) ar ……
(nodwch y dyddiad).

Y partneriaid

Gwneir y Cytundeb Partneriaeth hwn rhwng Comisiwn Coedwigaeth Cymru drwy ei swyddfa yng Ngogledd Cymru, a (rhowch enw'r sefydliad neu'r grŵp)

Mae'r partneriaid eraill yn y prosiect yn cynnwys:

Disgrifiad o'r Prosiect
(Disgrifiwch gyd-destun a nodau'r cynllun)

Amcanion y Prosiect
(Rhestrwch hwy)

Y Prosiect
Amlinelliad a Chostau

Cyfanswm (heb TAW)
TAW
Cyfanswm (yn cynnwys TAW)

Atodiad 6 – Cytundeb Partneriaeth Cenhedlaethcoed

Mewnbynnau

Ariannu'r Comisiwn Coedwigaeth

£….- Blwyddyn Ariannol (70% o'r cyfanswm y cytunwyd arno, yn cael ei dalu ar ôl cwblhau'r gwaith plannu)

£….- Blwyddyn Ariannol (30% o'r cyfanswm y cytunwyd arno, yn cael ei dalu ar ôl cwblhau'r gwaith cynnal a chadw)

Ariannu Arall a Sicrhawyd:

Ariannu Arall y Ceisiwyd Amdano Heb ei Sicrhau:

Cyfraniadau mewn Nwyddau:

Allbynnau
(Rhestrwch Hwy)

Allbynnau a Buddiannau
(Rhestrwch Hwy)

Rheoli

Bydd (rhowch enw'r sefydliad neu grŵp) yn:
Enwebu Rheolwr Prosiect a chymryd cyfrifoldeb am reoli'r prosiect o ddydd i ddydd ac yn gyffredinol.

Rheoli'r prosiect bob amser er budd pennaf y prosiect.
Yn ddarostyngedig i'r uchod, yn rheoli'r prosiect er budd pennaf y Bartneriaeth a'r sefydliadau partner sy'n rhan ohoni.

Yn rhoi i'r Comisiwn Coedwigaeth unrhyw wybodaeth am y prosiect y gellir bod ei hangen i fynd ag amcanion y prosiect yn eu blaenau.

Wrth is-gontractio unrhyw ran o'r prosiect neu osod archebion mewn cysylltiad â'r prosiect, yn sicrhau cael y gwerth gorau am arian gan gadw amcanion y prosiect mewn cof.

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth fel partner yn y prosiect yn ymrwymo i:

Gyfrannu at y prosiect er lles partneriaeth.

Cydnabod awdurdod (rhowch enw'r sefydliad neu grŵp) i reoli'r prosiect.

Atodiad 6 – Cytundeb Partneriaeth Cenhedlaethcoed

Cyfrifon

Bydd y Comisiwn Coedwigaeth yn talu i (rhowch enw'r sefydliad neu grŵp) y cronfeydd arian y cytunwyd arno yn y Llythyr Derbyn ar yr adegau cytunedig a nodir uchod.

Bydd (rhowch enw'r sefydliad neu grŵp) yn rheoli cronfeydd arian y prosiect yn unol â'i god ariannol ei hun.

Telerau ac Amodau'r Grant

1. Bydd gan gynrychiolydd y Comisiynwyr yr hawl i adolygu'r cynnydd ar y prosiect o bryd i'w gilydd ac yn benodol yn fuan wedi cwblhau'r prosiect pan fydd ymweliad safle i adolygu sut y cafodd cronfeydd arian y Comisiwn Coedwigaeth eu gwario.

2. Gall y Comisiynwyr derfynu'r cytundeb os effeithir ar y prosiect gan unrhyw un o'r canlynol: methdaliad, ansolfedd, carchariad, mynd i ddwylo'r derbynnydd, mynd i weinyddiaeth, compowndio gyda chredydwyr, absenoldeb am 3 mis drwy salwch neu anallu, dod i ben, ymgyfuno neu gymryd drosodd. Yn achos salwch gall y Comisiynwyr yn hytrach na therfynu, ohirio'r prosiect tan yr hysbysir yn wahanol.

3. Bydd (rhowch enw'r sefydliad neu grŵp), mewn cytundeb â chynrychiolydd y Comisiynwyr, yn cydnabod cyfraniad y Comisiynwyr (yn yr achos hwn menter coedwig drefol Cynhyrchu Coed) ar lenyddiaeth a datganiadau i'r wasg etc., a gyhoeddir am y prosiect. Ym mhob achos, y Cynhyrchu Coed fydd y corff arweiniol ym mhob cyhoeddusrwydd fydd yn gysylltiedig â'r prosiect, Mae pob erthygl i'w chyhoeddi i gael ei chytuno gyda chynrychiolydd y Comisiynwyr cyn ei rhyddhau.

4. Gwneir y cynnig o grant ar y ddealltwriaeth y bydd, yng nghwrs gwneud cais, (rhowch enw'r sefydliad neu grŵp) wedi datgelu i'r Comisiynwyr unrhyw gyfraniadau ariannol a gafwyd neu a ddisgwylir i'r un diben gan unrhyw gorff arall a ariennir gan gronfeydd cyhoeddus, er enghraifft, y Cyngor Chwaraeon, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Bwrdd Croeso Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru, CADW ac awdurdodau lleol, neu gan yr UE. Cyn belled â bod cynnig cyfraniad o'r fath, gall y Comisiynwyr amrywio neu ganslo eu cynnig neu gymryd ystyriaeth ohonynt.

7. In the event of a breach of these conditions, the Commissioners may declare the offer to be void, or may vary the amount of grant to be paid, or, where the grant or a portion of it has been paid, may require the amount paid to be repaid in full or in part with interest at the rate then currently specified by the Treasury for debts owing to Government Departments.

8. Any dispute about the interpretation of these conditions shall be referred to the arbitration of a person to be agreed between the parties or, failing agreement within 28 days after either party has given to the arall a written request to concur in the appointment of an arbitrator, a person to be nominated at the request of either party by the President of the Institute of Chartered Foresters.

5. Bydd (rhowch enw'r sefydliad neu grŵp) yn gyfrifol am gwrdd ag unrhyw hawliadau a wneir yn eu herbyn, neu yn erbyn y Comisiynwyr a fydd yn codi o'r cyfleusterau neu wasanaethau a gynorthwyir drwy grant oherwydd esgeulustod neu atebolrwydd cyhoeddus.

6. Ni fydd (rhowch enw'r sefydliad neu grŵp) yn newid yn faterol, nac yn newid defnydd, na gwerthu na chael gwared ar ran neu'r cyfan o'r cyfleusterau a gynorthwyir drwy grant, heb ganiatâd ysgrifenedig o flaen llaw gan y Comisiynwyr am 5 mlynedd o'r dyddiad agor. Yn dilyn cael caniatâd o'r fath ac os digwydd gwerthu neu newid defnydd neu gael gwared ar y cyfan neu ran o'r cyfleusterau a gynorthwyir drwy grant, bydd gan y Comisiynwyr yr hawl i gael cyfran o elw'r gwerthiant, neu werth cyfredol yr ased os na werthir hi, a fydd yn gyfartal i'r gyfran sydd a wnelo'r cymorth ariannol a roddwyd gan y Comisiynwyr â chost cyfanred caffael, creu, gwella neu addasu'r cyfan, neu'r rhan yr effeithir arni gan y cydsyniad.

7. Os bydd torri ar un o'r amodau hyn, gall y Comisiynwyr ddatgan bod y cynnig yn ddi-rym, neu gallant amrywio swm y grant sydd i'w dalu, neu, lle mae'r grant neu gyfran ohono wedi ei dalu, gallant fynnu bod y swm yn cael ei ad-dalu'n llawn neu'n rhannol gyda llog a nodir ar y pryd gan y Trysorlys ar gyfer dyledion i Adrannau'r Llywodraeth.

8. Cyfeirir unrhyw anghydfod ynghylch dehongli'r amodau hyn i'w cyflafareddu gan rywun i'w gytuno rhwng y partïon, neu os na cheir cytundeb cyn pen 28 niwrnod wedi i'r naill barti neu'r llall roi i'r llall gais ysgrifenedig i gytuno ar benodi cyflafareddwr, bod rhywun yn cael ei enwebu ar gais y naill barti neu'r llall gan Lywydd Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig.

9. Rhaid i'r cynnig hwn gael ei dderbyn (rhowch enw'r sefydliad neu grŵp) yn ysgrifenedig cyn pen un mis o'r dyddiad mae'n cael ei wneud. Os na cheir y derbyniad oddi mewn i'r amser hwnnw bydd y cynnig yn methu.

Llofnodwyd ar ran (rhowch enw'r sefydliad neu grŵp):

Enw:

Dyddiad:

Llofnodwyd ar ran y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru:

Enw:

Dyddiad: